mecanwaith ataliol cenedlaethol

# Monitro mannau cadw

Nawfed **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol
Y Deyrnas Unedig
**1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018**

CP 17

# Monitro mannau cadw

# Nawfed Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol Y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Ionawr 2019

CP 17

© Hawlfraint y Goron 2019
Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 heblaw lle mae'n nodi'n wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi pennu unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y dalwyr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications a www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ar:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk neu
HM Inspectorate of Prisons, 3rd floor, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London E14 4PU

ISBN 978-1-5286-0977-7

CCS0119399642 01/19

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Cyflwyniad gan John Wadham, Cadeirydd yr NPM** **4**

**1. OPCAT a'r NPM** **8**
Ynghylch Protocol Opsiynol y Confensiwn yn erbyn Triniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill 9
Trosolwg o'r NPM 10

**2. Ffocws ar faterion cadw** **12**
Trosolwg o ganfyddiadau allweddol y monitro a'r arolygu ar gyfer y flwyddyn 13
Gwaith thematig ar faterion y ddalfa 21
Cyflwyno cynigion ac arsylwadau 24
Cydweithrediad a chraffu rhyngwladol 27

**3. Cryfhau'r NPM** **30**
Yr NPM yn 2017–18 31
Ymweliadau ac arolygiadau 33
Hunanasesiad NPM 35
Datblygu'r NPM 37
Datblygiadau sy'n ymwneud yn benodol ag aelodau 39

**4. Edrych ymlaen at 2018–19** **46**

**5. Atodiadau** **48**

Atodiad 1
Rhestr Termau 49

Atodiad II
Rhagor o wybodaeth am NPM y Deyrnas Unedig 51

Atodiad III
Gohebiaeth NPM gyda'r SPT 52



# Cyflwyniad gan John Wadham, Cadeirydd NPM

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol diweddaraf y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol a, thrwy wneud hynny, groesawu hyder cynyddol yr NPM yn gyffredinol ac, yn fwy penodol, ddylanwad cynyddol ei 21 o aelodau. Ond, mae'r risg o gamdriniaeth i'r rheiny sy'n cael eu dal mewn mannau cadw ledled y Deyrnas Unedig wedi cynyddu, os unrhyw beth, ers y llynedd. Mae aelodau'r NPM eleni'n parhau i leisio pryderon nad yw carcharorion yn cael eu cadw mewn amodau diogel a gweddus. Cafwyd nifer o bryderon difrifol am ddiogelwch mewn nifer o garchardai a chanolfannau cadw yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi canfod amodau ffisegol gwael ac amodau nad ydynt yn addas i'w pwrpas, a defnydd gormodol neu amhriodol o ddulliau cyfyngu ar rai o'r carcharorion mwyaf agored i niwed – gan gynnwys plant a phobl ifanc, rheiny sy'n cael eu cadw mewn safle iechyd meddwl a'r rheiny a gedwir i aros eu hallgludiad o'r Deyrnas Unedig.

Am y tro cyntaf eleni, rydym wedi ceisio canfod beth yw maint ein gwaith – nifer yr ymweliadau a'r arolygiadau – a wneir gan aelodau'r NPM. Mae'r ffigurau'n dangos nifer sylweddol ar draws ein 21 o aelodau a'r pedair cenedl yr ydym yn eu gwasanaethu. I grynhoi:

- cafwyd o leiaf 66,053 o ymweliadau monitro gan wirfoddolwyr ymroddedig drwy gydol y flwyddyn â charchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, cyfleusterau cadw mewnfudo, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd llys ac i arsylwi hebryngwyr; a
- gwnaeth yr arolygwyr o leiaf 1,580 o arolygiadau ar draws y Deyrnas Unedig.

Dydw i ddim yn credu bod NPM yn unrhyw le yn y byd sydd wedi adrodd am nifer debyg i hyn o ymweliadau â'r mannau cadw yn ei wlad. Mae hwn yn gyflawniad anghredadwy ac yn un o gryfderau model NPM y Deyrnas Unedig.

Pob tro y bydd arolygwr neu wirfoddolwr annibynnol yn ymweld â man lle mae pobl yn cael eu cadw mae'n gwneud y broses yn fwy agored a gonest. Mae'r ymweliad yn creu awyrgylch llai caeedig ac yn rhoi cyfle i'r rheiny sy'n cael eu cadw leisio eu pryderon. Yn bwysig iawn, mae'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd amodau'r cadw'n gostwng ymhellach ac yn lleihau'r posibilrwydd y bydd y sawl sy'n cael ei gadw neu ei chadw yn dioddef camdriniaeth. Mae aelodau'r NPM yn gwrando'n ofalus ar garcharorion a staff, yn gwneud argymhellion am newid ac yn gyrru gwelliannau mewn amodau yn eu blaenau, gan ostwng y risg o gamdriniaeth hyd yn oed ymhellach. Wrth graidd gwaith NPM y Deyrnas Unedig mae agwedd hawliau dynol – yn gosod profiad y mae'r carcharorion wedi byw drwyddo wrth galon y broses fonitro ac arolygu

ac yn defnyddio arferion gorau a safonau rhyngwladol i asesu triniaeth ac amodau yn y mannau cadw.

Yn anffodus, mae llawer mwy i'w wneud o hyd ac mae'r rheiny sy'n ymweld ac yn arolygu yn aml yn nofio yn erbyn y llanw – poblogaeth fawr sy'n tyfu yn y carchardai, dim cyfyngiad ar y cyfnod y gellir cadw pobl yn y ddalfa mewnfudo, a gormod o bobl wedi eu gwahanu neu eu hynysu (mewn carchardai o fewn carchardai). Ond trwy gydweithio ar draws y sefydliadau cadw ac ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig, gall aelodau'r NPM wneud gwahaniaeth bob blwyddyn, ac maen nhw'n gwneud hynny. Mae NPM yn parhau i chwilio am ffyrdd o gryfhau ein prosesau gweithio ar y cyd. Eleni crëwyd is-grŵp dalfa'r heddlu i'r NPM i rannu a gwella arferion arolygu ac ymweld â'r ddalfa. Rydym hefyd wedi croesawu datblygiad safonau a methodoleg newydd ar gyfer arolygiadau ar y cyd o ystafelloedd dalfa sydd wedi'u clustnodi i ddal y rheiny a gedwir o dan y ddeddfwriaeth gwrth-derfysgaeth (ystafelloedd TACT). Cafodd y gwaith yma ei wneud gan Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Ar y lefel genedlaethol, mae Ysgrifenyddiaeth yr NPM wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau gwell cydlyniad rhwng llywodraethau a gweithredwyr y pedair gwlad, ac mae wedi cychwyn drafftio Protocol a ddylai helpu i strwythuro'r perthnasoedd yma'n well a chydnabod pwysigrwydd NPM annibynnol.

Ond, roeddem wedi cychwyn y flwyddyn newydd ym mis Ebrill 2018 heb yr adnoddau ychwanegol yr oedd eu hangen yn ddirfawr ar Ysgrifenyddiaeth yr NPM i sicrhau y gellid cyflawni'r potensial yn llawn o weithio ar y cyd ar draws y sefydliadau sy'n aelodau, y gwledydd sy'n aelodau a'r gwahanol leoliadau cadw. Yn ogystal â hynny, torrwyd cyllidebau rhai aelodau o'r NPM. Rydym hefyd yn gorfod parhau i dreulio amser yn dadlau bod angen i'r NPM gael ei osod ar sail ddeddfwriaethol. Mae hwn yn amser y byddai'n well gan Ysgrifenyddiaeth yr NPM ei dreulio yn cefnogi aelodau i wella amodau mewn mannau cadw. Byddai deddfwriaeth yn egluro rôl yr NPM a'i aelodau ac yn ymwreiddio'r mandad sy'n ofynnol gan y Cenhedloedd Unedig. Ni ddylem fynd am flwyddyn arall heb y gwarantau angenrheidiol am ein hannibyniaeth. Rwyf felly'n ddiolchgar iawn bod Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (SPT) wedi cefnogi'r honiadau yma mewn termau mor gadarn:

'Mae'r ffaith nad oes sail ddeddfwriaethol glir i'r NPM wedi bod yn destun pryder i'r SPT ers amser maith. Gwyddom fod rhai pobl o'r farn nad yw hyn yn gyfreithiol angenrheidiol o dan yr OPCAT. Mae'r SPT yn anghytuno gyda'r farn hon ac os bydd yr SPT yn ymweld â'r Deyrnas Unedig ar sail swyddogol mae'n anochel y bydd y methiant hwn yn ymddangos yn ei adroddiad a'i argymhellion – fel y mae ymhob gwlad arall lle mae gwendidau tebyg.

'Ym mhrofiad yr SPT, mae sefyllfa NPM yn parhau'n ansicr tra bo heb ei danategu gan sail ddeddfwriaethol glir. Yn anffodus, rydym wedi gweld gormod o esiamplau o achosion lle mae gwladwriaethau wedi rhoi pwysau ar NPMs, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nad ydynt wedi gallu ei herio am nad oes sail glir i wneud hynny arni. Mae effeithiolrwydd ymarferol

yn ddibynnol ar annibyniaeth weithredol, ac mae'r annibyniaeth dan fygythiad pan fo'r NPM yn agored i bwysau gwleidyddol neu argyfyngau gwleidyddol. Mae rôl yr SPT mewn perthynas â'r NPMs yn cynnwys sicrhau eu bod wedi eu diogelu rhag pwysau o'r fath. Felly, mae ein barn ddigamsyniol bod y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gofyn, yn rhan o'i waith arferol, bod gan yr NPM sail ddeddfwriaethol glir.'

Heb weithredu gan y llywodraeth ar gynyddu arian i Ysgrifenyddiaeth yr NPM a deddfwriaeth angenrheidiol iawn, ni fydd cyfraniad yr NPM yn y dyfodol ar atal camdriniaeth mor sylweddol ag yr hoffwn ei weld.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i edrych ymlaen ac yn y flwyddyn nesaf, bydd y llywodraeth yn wynebu adolygiad gan un o bwyllgorau allweddol y Cenhedloedd Unedig – y Pwyllgor yn erbyn Artaith. Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno ei asesiad ei hun yn barod o'r graddau y mae'n cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol. Tro'r NPM yw hi erbyn hyn i roi sylwadau am yr asesiad hwn a chyflwyno ei sylwadau ei hun. Mae hwn yn gyfle sy'n ennyn croeso mawr a bydd aelodau'r NPM yn gweithio'n galed i gynhyrchu tystiolaeth i helpu'r Pwyllgor i wneud argymhellion am welliannau cadarn i'r amodau mewn dalfeydd a charchardai.


Y flwyddyn nesaf, mae hi hefyd yn 10fed pen-blwydd NPM y Deyrnas Unedig, felly mae hi'n gyfnod i ystyried popeth a gyflawnwyd ac i edrych tuag at 10 mlynedd nesaf yr NPM. Mae'r pen-blwydd yn dynodi ei bod hi'n amser i'r NPM symud i mewn i'w gyfnod nesaf – mae'n bryd iddo gael gwell adnoddau a gallu helpu ei aelodau fwy nag erioed i lynu at eu gwerthoedd OPCAT ac ysbryd y cytundeb, sy'n nodi bod: 'modd cryfhau'r diogelwch i bobl sydd wedi colli eu rhyddid rhag dioddef artaith a thriniaeth neu gosbau creulon, annynol neu ddiraddiol eraill, a hynny trwy ddulliau ataliol, nad ydynt yn farnwrol, sydd wedi'u seilio ar ymweliadau rheolaidd â mannau cadw...'

Edrychaf ymlaen at flwyddyn gynhyrchiol arall yn gweithio gyda'n haelodau NPM wrth i ni symud i mewn i'r cyfnod nesaf hwn.



John Wadham
Cadeirydd
UK Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

# Adran Un
# OPCAT a'r NPM



## Ynghylch Protocol Opsiynol y Confensiwn yn erbyn Triniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill

Mae Protocol Opsiynol y Confensiwn yn erbyn Triniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (OPCAT) yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol a luniwyd i gryfhau'r diogelwch i bobl sydd wedi colli eu rhyddid. Roedd y ffaith bod Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi ei fabwysiadu yn 2002 yn adlewyrchu consensws ymysg y gymuned ryngwladol fod pobl sydd wedi colli eu rhyddid yn arbennig o agored i gamdriniaeth ac y dylai ymdrechion i frwydro yn erbyn camdriniaeth o'r fath ganolbwyntio ar ataliad.

Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal camdriniaeth yn y ddalfa neu'r carchar yw drwy system o ymweliadau rheolaidd, annibynnol â phob safle cadw. Mae ymweliadau fel yma'n monitro triniaeth ac amodau'r carcharorion.

Daeth OPCAT i rym ym mis Mehefin 2006. Mae gofyn i wladwriaethau sy'n dilysu OPCAT ddynodi 'mecanwaith ataliol cenedlaethol' (NPM). Mae hwn yn gorff neu'n grŵp o gyrff sy'n gwneud archwiliadau rheolaidd o amodau mannau cadw a thriniaeth carcharorion, yn gwneud argymhellion, ac yn rhoi sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddrafft neu'r ddeddfwriaeth bresennol gyda'r nod o wella'r driniaeth a'r amodau mewn mannau cadw.

I wneud ei rôl fonitro'n effeithiol, mae'n rhaid i NPM:

- fod yn annibynnol i'r llywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro;
- fod ag adnoddau digonol i wneud ei rôl; a
- bod â phersonél sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ac sy'n ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r NPM fod â'r grym i:

- fynd i mewn i'r holl fannau cadw (gan gynnwys y rheiny a weithredir gan ddarparwyr preifat);
- gynnal cyfweliadau preifat gyda charcharorion a phobl berthnasol eraill;
- ddewis pa fannau y mae eisiau ymweld â nhw a phwy mae'n dymuno eu cyfweld;
- gael gafael ar wybodaeth am y nifer o bobl sydd wedi colli eu rhyddid, y nifer o fannau cadw a'u lleoliad; a
- chael gafael ar wybodaeth am driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw.

Mae'n rhaid i'r NPM hefyd gadw mewn cysylltiad ag Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (SPT), corff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT sydd â swyddogaethau gweithredol (ymweld â mannau cadw mewn gwladwriaethau sy'n barti a gwneud argymhellion am ddiogelu carcharorion rhag camdriniaeth) a swyddogaethau cynghori (darparu cymorth a hyfforddiant i wladwriaethau sy'n barti ac i NPMs). Mae'r SPT yn cynnwys 25 o arbenigwyr annibynnol a diduedd o amgylch y byd ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am ei weithgareddau.[1]

---

1 Mae'r holl adroddiadau blynyddol, yn cynnwys yr 11eg adroddiad blynyddol diweddaraf sy'n ymwneud â'r gwaith a wnaeth yr SPT yn 2017, sydd ar gael ar wefan Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd dros Hawliau Dynol, https://tbinternet.ohchr/org/_layouts/treatybodyexternal/TBSearch.aspx?Lang=en&TreatyID=12&DocTypeID=27, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.

Ar hyn o bryd mae 88 o wladwriaethau sy'n barti i OPCAT, ac mae 67 NPM dynodedig.[2]

## Trosolwg o'r NPM

Dilyswyd OPCAT gan y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2003 a dynododd y DU ei NPM ym mis Mawrth 2009. Cyfrifoldeb llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd hi i ddynodi NPM a dewisodd ddynodi nifer o gyrff oedd yn bodoli'n barod yn hytrach na chreu un corff NPM newydd. Roedd hyn wedi cymryd i ystyriaeth y ffaith fod nifer o fathau o fannau cadw yn y Deyrnas Unedig yn cael eu monitro yn barod gan gyrff annibynnol, fel y rhagwelwyd gan OPCAT, a'r gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol sy'n bodoli ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig. Mae 21 o gyrff erbyn hyn wedi'u dynodi i'r NPM; a'r dynodiad mwyaf diweddar oedd Adolygydd Annibynnol y Ddeddfwriaeth Derfysgaeth ar 12 Ionawr 2017.[3]

**Yr Alban**
Arolygiaeth Gofal (CI)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yr Alban (HMICS)
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yr Alban (HMIPS)
Ymweliadau Annibynnol â Sefydliadau Cadw yr Alban (ICVS)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)

**Gogledd Iwerddon**
Arolygon Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Cynllun Ymwelwyr Annibynnol Sefydliadau Cadw Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)

**Cymru a Lloegr**
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)[4]
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMI Prisons)
Y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw (ICVA)
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
Arsyllwyr Lleyg (LO)
Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)

**Y Deyrnas Unedig**
Adolygydd Annibynnol y Ddeddfwriaeth Derfysgaeth (IRTL)

Mae'r cyrff sy'n creu NPM y Deyrnas Unedig yn monitro gwahanol fathau o fannau cadw ar draws yr awdurdodaethau, yn cynnwys carchardai. dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llys, cyfleusterau dalfa'r tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau mewnfudo, dalfeydd milwrol ac iechyd meddwl, fel a ganlyn:

2 Casgliad Cytundeb Cenhedloedd Unedig, 'Pennod IV: 9. Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth a Chosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill', y statws fel ydoedd ar 09/07/2018, https://treaties.un.org/Pages/ViewDetails.aspx?src=TREATY&mtdsg_no=IV-9-b&chapter=4&clang=en cyrchwyd 09/07/2018.; Y Gymdeithas er Atal Artaith, cronfa ddata OPCAT, ar gael ar http://www.apt.ch/en/opcat-database/, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.

3 Mae rhagor o wybodaeth am y broses o ddynodi a dolen at y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ar wefan yr NPM ar https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/about/background/, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.


4 Newidiodd Arolygiaeth Gofal Cymru ei enw o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Ionawr 2018.

<table>
<tr><th rowspan="2">Y Lleoliad Carcharu</th><th colspan="4">Awdurdodaeth</th></tr>
<tr><th>Lloegr</th><th>Cymru</th><th>Yr Alban</th><th>Gogledd Iwerddon</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIs)</td><td>Arolygiaeth Carchardai EM gyda CQC ac Ofsted</td><td>Arolygiaeth Carchardai EM gydag AGIC</td><td rowspan="2">HMIPS gyda CI a SHRC; MWCS</td><td>CJINI ac Arolygiaeth Carchardai EM gyda RQIA</td></tr>
<tr><td>IMB</td><td>IMB</td><td>IMBNI</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dalfa'r Heddlu</td><td colspan="2">HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM</td><td>HMICS</td><td>CJINI gyda RQIA</td></tr>
<tr><td colspan="2">ICVA</td><td>ICVS</td><td>NIPBICVS</td></tr>
<tr><td>Dalfa'r llys a hebryngwyr</td><td colspan="2">Arsyllwyr Lleyg ac Arolygiaeth Carchardai EM</td><td>HMIPS</td><td>CJINI</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Carcharu o dan y Ddeddf Terfysgaeth</td><td colspan="4">IRTL</td></tr>
<tr><td colspan="2">ICVA</td><td>ICVS</td><td>NIPBICVS</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Plant mewn llety diogel</td><td rowspan="2">Ofsted (ar y cyd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a CQC mewn perthynas â chanolfannau hyfforddi diogel)</td><td rowspan="2">AGC</td><td rowspan="2">CI</td><td>RQIA</td></tr>
<tr><td>CJINI</td></tr>
<tr><td>Plant (yr holl leoliadau cadw)</td><td>CCE</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cadw o dan y gyfraith iechyd meddwl</td><td>CQC</td><td>HIW</td><td>MWCS</td><td>RQIA</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Colli rhyddid[5] a mathau eraill o ddiogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol</td><td rowspan="2">CQC</td><td>HIW</td><td rowspan="2">CI and MWCS</td><td rowspan="2">RQIA</td></tr>
<tr><td>CIW</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dalfeydd mewnfudo</td><td colspan="3">Arolygiaeth Carchardai EM</td><td>Arolygiaeth Carchardai EM gyda CJINI</td></tr>
<tr><td colspan="4">IMB</td></tr>
<tr><td>Dalfeydd milwrol</td><td colspan="4">Arolygiaeth Carchardai EM</td></tr>
<tr><td>Cyfleusterau dalfa'r tollau</td><td colspan="4">HMICFRS, Arolygiaeth Carchardai EM a HMICS</td></tr>
</table>

5 Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn unig yn rhan o Ddeddf Capasiti Meddwl 2015 ond mae sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymweld ac yn arolygu cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol lle gallai pobl fod wedi colli eu rhyddid.

Adran dau

# Ffocws ar faterion cadw



## Trosolwg o ganfyddiadau allweddol y monitro a'r arolygu ar gyfer y flwyddyn

Mae aelodau NPM (yn unigol ac ar y cyd) yn gwneud nifer sylweddol o arolygon ac ymweliadau monitro bob blwyddyn. Darperir trosolwg o ganfyddiadau'r ymweliadau hyn isod, ac yn dilyn hynny mae crynodeb o'r gwaith thematig a wnaethpwyd gan aelodau'r NPM i archwilio a deall yn fanylach faterion sy'n codi mewn mannau cadw. Mae rhai o'r argymhellion, cynigion ac arsylwadau a wnaethpwyd gan aelodau'r NPM (yn unigol ac ar y cyd) i ymdrin â materion a welwyd drwy waith monitro ac arolygu wedi'u cynnwys tua diwedd yr adran hon.

### Carchardai

Roedd y darlun mewn carchardai ar draws y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn amrywiol, a chododd aelodau'r NPM bryderon a oedd yn debyg i'r rheiny a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, gostyngodd nifer y marwolaethau a achoswyd gan yr hunan mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, cynyddodd yr achosion o hunan-niweidio yn y 12 mis hyd fis Mawrth 2018 i 46,859, sef cynnydd o 16% ar y flwyddyn flaenorol.[6] Roedd arolygon ar y cyd o garchardai dynion yng Nghymru a Lloegr (a wnaed gan Arolygiaeth Carchardai EM, CQC ac Ofsted) ac ymweliadau monitro gan yr IMB wedi nodi rhai esiamplau o arferion da, ond hefyd bryderon difrifol.

Yn y mwyafrif o garchardai a arolygwyd, nodwyd gwendidau sylweddol mewn asesiad, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) wrth reoli achosion carcharorion oedd mewn perygl o hunan-niweidio neu gymryd eu bywydau eu hunain. Roedd yn destun pryder hefyd bod argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) yn dilyn ymchwiliadau i farwolaethau heb gael eu gweithredu'n ddigonol mewn nifer sylweddol o garchardai a arolygwyd. Dywedodd Arolygiaeth Carchardai EM bod yr amodau byw a welodd yn ystod arolygiadau o Garchar EM Wormwood Scrubs a Charchar EM Lerpwl yn rhai o'r gwaethaf yr oedd arolygwyr wedi'u gweld erioed, ac roedd yr amodau byw mewn llawer o garchardai eraill yn wael iawn. Ond, er gwaethaf y pwysau ar y system, soniodd y mwyafrif o'r dynion bod y gyfran fwyaf o'r staff yn eu trin nhw gyda pharch.

Roedd y gyfran o amser a dreuliai dynion y tu allan i'w celloedd yn dal i fod yn wael i lawer: dywedodd 20% o'r dynion a ymatebodd i arolwg Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi eu bod allan o'u celloedd am lai na dwy awr y dydd ar ddyddiau'r wythnos, a dim ond 16% ddywedodd eu bod allan o'u celloedd am 10 awr o leiaf. Yn yr arolwg, dywedodd tri deg wyth y cant o'r rheiny sy'n 18–21 oed sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI) bod eu drysau'n cael eu datgloi am lai na dwy awr y diwrnod. Canfu'r arolygiadau a'r gwaith monitro bod prinder staff mewn rhai carchardai'n effeithio ar yr amser y cai carcharorion ddod allan o'u celloedd.

Fel y dywedwyd y llynedd, roedd y canlyniadau mewn carchardai merched yn Lloegr yn well yn gyffredinol na'r rheiny yng ngharchardai'r dynion. Ond, mewn arolwg o Peterborough canfuwyd nad oedd canlyniadau mewn perthynas â diogelwch yn ddigon da. Dyma oedd y tro cyntaf ers 2008 i garchar merched gael ei asesu fel un nad oedd yn darparu canlyniadau digon

6 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa, Cymru a Lloegr: Marwolaethau yn y Carchar hyd fis Mehefin 2018 Ymosodiadau a Hunan-niweidio hyd fis Mawrth 2018*, Gorffennaf 2018, ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729496/safety-in-custody-bulletin-2018-Q1.pdf, cyrchwyd 9 Awst 2018.

da ar gyfer diogelwch. Roedd y rheiny a ddaliwyd mewn carchardai merched yn parhau i ddangos anghenion cymhleth ac nid oedd y carchardai bob amser yn gwneud digon i'w cefnogi nhw. Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, roedd nifer o'r carcharorion yn y carchardai i ferched yn bell iawn o adref, ac roedd hyn yn effeithio ar yr ymweliadau a gawsent a'r ymdrechion i'w hailsefydlu nhw.[7]

Yng Ngogledd Iwerddon, canfu cyd-arolwg o Garchar Magilligan gan CJINI, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a RQIA bod cynnydd wedi'i sicrhau mewn llawer o feysydd, ac yn fwyaf arwyddocaol mewn gwella'r cyfleoedd i garcharorion wella eu sgiliau, dod yn fwy cyflogadwy a dod yn fwy hunan-hyderus, ac hefyd mewn darparu gofal iechyd meddwl. Ond, roedd pryderon yn bodoli o hyd am y ffaith nad oedd strategaeth gyffuriau ac alcohol integredig ganddynt. Canfu cyd-arolwg o Garchar Maghaberry ac ymweliadau monitro rheolaidd bod cynnydd i'w weld yn y gwaith o sefydlogi'r carchar a bod mwy o ffocws ar wella canlyniadau i garcharorion. Ond, canfuwyd gwendidau yn y gofal a'r gefnogaeth a ddarparwyd i'r carcharorion mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y ffaith nad oedd argymhellion gan adroddiadau hanfodol i farwolaethau yn y ddalfa a hunan-niweidio difrifol yn y carchar yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Roedd y Bwrdd Monitro'n parhau'n bryderus am y nifer o ddynion sy'n cael eu cadw ar wahân heb strategaeth glir ar gyfer eu dychweliad i'w lleoliad arferol.[8]

Yn yr Alban, soniodd HMIPS bod y canlyniadau i garcharorion yn gyffredinol foddhaol, a'u bod yn dechrau gweld manteision o gyflwyno swyddogion personol a swyddogion cefnogi mewnofal. Roedd hi'n arbennig o anogol gan HMPIS weld gwelliannau'n cael eu gweithredu wrth i sefydliadau ymateb yn bositif i arsylwadau a chanfyddiadau Monitoriaid Carchardai Annibynnol. Croesawodd HMPIS gynlluniau'r llywodraeth i amnewid Carchar EM Inverness a Charchar EM Greenock (dau o'r carchardai hynaf yn Yr Alban) a pharhaodd i weithio ar ddatblygu Unedau Dalfa Cymunedol i ferched, a fydd yn gadael i ferched wneud eu dedfryd yn agosach at eu cartrefi a'u teuluoedd.

Ond, nododd HMIPS hefyd rai pryderon drwy gydol y flwyddyn. Nid oedd digon o le ar raglenni triniaeth i ymdrin ag ymddygiadau troseddol a adnabuwyd ac, o ganlyniad, ni allai rhai carcharorion symud yn eu blaenau. Roedd y darlun gofal iechyd yn amrywiol, ac amlygodd HMIPS ystod o bryderon, gan gynnwys lefelau staffio, amrywiadau yn y prosesau rhagnodi, a chynnydd sy'n ennyn pryder mewn achosion o ddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd (NPS)[9] sy'n cael effaith niweidiol ar adnoddau staff gofal iechyd.[10] Y gobaith yw y bydd Bwrdd Cydweithredol Iechyd a Chyfiawnder, a sefydlwyd gan Lywodraeth

7 I gael gwybodaeth fanwl am arolygon arbennig, gwelwch https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/, ac ar gyfer yr adroddiadau monitro, gwelwch adroddiadau blynyddol pob Bwrdd, sydd i'w gweld ar https://www.imb.org.uk. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn rhoi crynodeb o'i ganfyddiadau bob blwyddyn yn ei adroddiad blynyddol, *Prif Arolygiaeth Carchardai EM yng Nghymru a Lloegr, Adroddiad Blynyddol 2017–18*, Gorffennaf 2018 https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/07/6.4472_HMI-Prisons_AR-2017-18_Content_A4_Final_WEB.pdf. Cyrchwyd yr holl wefannau ar 8 Awst 2018.

8 Gallwch weld yr adroddiadau arolwg perthnasol ar http://www.cjini.org/TheInspections/Inspection-Reports, cyrchwyd 19 Tachwedd 2018.

9 Cyffuriau megis 'Spice' sy'n cael eu datblygu neu eu dewis i ddynwared effeithiau cyffuriau anghyfreithlon megis cannabis, heroin neu amffetaminau ac a allai gael effeithiau sy'n bygwth bywyd neu na ellir eu rhagweld.

10 Gallwch weld manylion llawn canfyddiadau'r arolwg ar https://www.prisoninspectoratescotland.gov.uk, cyrchwyd 20 Tachwedd 2018.

yr Alban i ganolbwyntio ar wella gofal iechyd carcharorion, yn helpu i ymdrin â'r pryderon iechyd a gofal iechyd a welwyd yng ngharchardai'r Alban. Hefyd, cododd HMIPS bryderon am amodau'r rheiny sydd ar remand oherwydd nad oes cydraddoldeb i bawb o ran eu cyfle i wneud gweithgareddau pwrpasol a chael amser allan o'r gell, a'r amseroedd aros hirion i gael apwyntiadau gofal iechyd a thriniaeth i garcharorion ar remand. Roedd HMIPS felly'n croesawu archwiliad Llywodraeth yr Alban o ffyrdd o ostwng y defnydd o remand, er enghraifft, trwy ddefnydd cynyddol o fonitro electronig. Mae nifer cynyddol o garcharorion hŷn, y rheiny sy'n gwneud dedfrydau hirach, carcharorion remand a'r rheiny a euogfarnwyd o droseddau rhywiol yn yr Alban. Mae'r ffactorau hyn yn debygol o barhau i roi pwysau ar faint poblogaeth carchardai'r Alban am gyfnod hir i ddod.

### Plant mewn Mannau Cadw

Y llynedd nododd adroddiad blynyddol NPM, gyda phryder arbennig, y casgliad y daeth Arolygiaeth Carchardai EM iddo ym mis Chwefror 2017, nad oedd unrhyw sefydliad yr oedd wedi'i archwilio yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel i ddal plant. Eleni, dywedodd Arolygiaeth Carchardai EM bod arwyddion cynnar o welliant mewn diogelwch mewn nifer o sefydliadau. Ond, canfu arolygon ar y cyd (gan Ofsted, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a CQC) o bob un o'r canolfannau hyfforddi diogel (STC) bod y canlyniadau naill ai'n annigonol neu'n gofyn gwelliant a chododd arolwg STC Oakhill bryderon mor ddifrifol nes bod y tri sefydliad wedi anfon llythyr brys at y Gweinidog cyfrifol, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder Ieuenctid, Dioddefwyr, Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd y Troseddwr (sef Dr Phillip Lee bryd hynny). Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, codwyd pryderon am y lefelau uchel o drais mewn canolfannau hyfforddi diogel (STC) a sefydliadau troseddwyr ifanc (YOIs) ac roedd hi'n destun pryder enfawr bod Arolygiaeth Carchardai EM wedi adrodd bod y lefelau trais bob yn ben mewn STCs yn uwch nag unrhyw fath arall o sefydliad yr oedd yn eu harolygu.

Canfuwyd bod defnydd uchel o orfodaeth ar draws yr ystâd YOI ac STC, ac er bod arolygwyr wedi canfod gwelliant cyffredinol yn y defnydd o orfodaeth, roedd yno broblemau, gan gynnwys achosion o ddefnydd anghymesur o orfodiad a methiant i wisgo camerâu a wisgir ar y corff, neu i'w troi ymlaen. Codwyd pryderon dro ar ôl tro mewn perthynas â'r amser y mae'r carcharorion yn ei dreulio allan o'r gell mewn rhai YOIs, gyda llawer o fechgyn ar leoliad arferol yn cael eu cloi i mewn am fwy na 22 awr y dydd. Ar ei waethaf, dim ond am hanner awr y diwrnod yr oedd rhai bechgyn allan o'u celloedd. Roedd yr amodau a'r trefniadau ar gyfer y rheiny a dynnwyd o leoliad arferol a'u rhoi mewn unedau gofal a gwahanu'n gyffredinol wael (heblaw yn Parc a Warrington) er bod y defnydd a wneir o'r unedau hyn wedi gostwng. Canfuwyd bod yr uned yn Feltham (a rennir gyda safle'r oedolion) yn amgylchedd hollol anaddas i ddal plant. Parhaodd Arolygiaeth Carchardai EM, IMB ac Arsyllwyr Lleyg oll i ganfod bod nifer o fechgyn yn gorfod aros cyn cael eu hebrwng o ddalfa'r llys i'r YOIs, yn wynebu teithiau hirion a/neu yn cyrraedd yn rhy hwyr y nos i dderbyn sesiwn ymgartrefu go iawn. Roedd nifer o fechgyn hefyd yn teithio gydag oedolion ac roedd hyn yn gwaethygu'r oedi pan oedd yr oedolion yn cael eu gollwng yn gyntaf.[11]

11 I weld canfyddiadau manwl gan Ofsted ac Arolygiaeth Carchardai EM, cyfeiriwch at adroddiadau eu harolygon yn http://reports.ofsted.gov.uk a https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/ yn y drefn honno (cyrchwyd 20 Tachwedd 2018). Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau Arsyllwyr Lleyg yn eu *Annual Report to the Secretary of State for Justice*, Gorffennaf 2018 https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/layobservers-prod-storage-nu2yj19yczbd/uploads/2018/07/Lay-Observer-Annual-Report-17-18.pdf, cyrchwyd 8 Awst 2018.

Adroddwyd bod y darlun yn well mewn cartrefi diogel i blant (SCH) yng Nghymru a Lloegr, sy'n dal plant i bwrpasau cyfiawnder troseddol ac i bwrpasau llesiant. Yn Lloegr, canfu Ofsted ganlyniadau annigonol mewn dim ond un SCH ac, o'r 13 oedd ar ôl, dim ond dau a farnwyd o safon is na da. Yn wahanol i'r llynedd, pan adroddwyd am ddau farwolaeth mewn SCHs,[12] ni adroddwyd am unrhyw farwolaethau eleni. Mewn perthynas â'r Ganolfan Ddiogel yng Nghymru, canfu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) bod mynediad da i gyfleusterau addysg a hamdden, ond bod angen gwneud gwelliannau diogelu i sicrhau fod plant yn cael eu diogelu'n ddigonol. Soniodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am broblemau mewn perthynas â nifer a hyd y trefniadau cyfyngu ar blant mewn un ysbyty annibynnol yng Nghymru.

Mae'r nifer y bobl ifanc mewn carchardai yn Yr Alban wedi aros yn isel yn ystod y flwyddyn. Ond, cododd y Monitoriaid Carchardai Annibynnol bryderon am y lefelau isel o bobl ifanc yng Ngharchar EM/YOI Polmont a gymerodd ran mewn gweithgaredd pwrpasol, a chategorïau penodol o ddynion ifanc oedd yn methu cael amser tu allan pob dydd. O ganlyniad i hynny, nododd y Monitoriaid bod rhai dynion ifanc yn treulio gormod o'u diwrnod dan glo yn eu celloedd.

Yng Ngogledd Iwerddon, canfu CJINI a RQIA ethos plentyn-ganolog ar waith yng Nghanolfan Gyfiawnder Ieuenctid Woodlands (JJC) ac adroddodd bod cynnydd da wedi digwydd mewn gweithredu pedwar argymhelliad strategol ar gyfer gwelliant a wnaed gan arolygwyr yn 2015. Galwodd yr arolygwyr am fwy o aliniad rhwng JJC a'r ganolfan ofal diogel ranbarthol. Yn dilyn argymhellion a wnaed gan RQIA, gwelwyd rhai gwelliannau yn yr arferion gofal i blant mewn gofal diogel rhanbarthol yng Ngogledd Iwerddon, yn cynnwys monitro annibynnol ychwanegol, cynnydd mewn trosolwg gan yr ymddiriedolaeth a threfniadau archwiliadau wedi'u cynllunio i asesu canlyniadau craidd.

### Dalfa'r heddlu

Yng Nghymru a Lloegr, daeth newidiadau i rym i adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (a rheoliadau perthnasol) ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r newidiadau yma'n atal defnyddio gorsafoedd heddlu fel lle o ddiogelwch i blant a gorfodi amodau tynn ar bryd y mae caniatâd i oedolion gael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu fel lle diogel.[13] Cyfrannodd y newidiadau at y duedd o ostyngiad mewn defnyddio gorsafoedd heddlu fel lle diogel, ond parhaodd hyn yn rhy uchel mewn rhai heddluoedd (yn aml oherwydd ffactorau y tu allan i reolaeth yr heddluoedd, megis prinder gwelyau iechyd meddwl). Parhaodd arolygwyr ac ymwelwyr annibynnol â sefydliadau cadw i sôn am oedi mewn trosglwyddo'r rheiny oedd angen asesiad neu driniaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (unwaith eto, oherwydd ffactorau yn aml iawn y tu allan i reolaeth heddluoedd), a soniodd arolygwyr am bryderon bod plant yn cael eu dal dros nos yn nalfa'r heddlu pan wrthodwyd mechnïaeth iddynt am nad oedd llety arall ar gael, hyd yn oed pan oedd staff y ddalfa wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ganfod llety iddynt. Roedd arolygwyr hefyd wedi codi pryderon sylweddol am ddefnyddio

12 Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn *Ombudsman Annual Report 2017–18* Carchardai a Phrawf, tudalen 49, sydd ar gael ar https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/ppo-prod-storage-1g9rkhjhkjmgw/uploads/2018/10/PPO_Annual-Report-2017-18_WEB_final.pdf, a gyrchwyd 20 Tachwedd 2018.

13 Mae Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn galluogi i swyddog heddlu dynnu (heb warant neu ddrwgdybio bod trosedd wedi digwydd) rhywun y maent yn credu eu bod yn 'dioddef o anhwylder meddwl ac o fod angen gofal neu eu rheoli ar unwaith' i le o ddiogelwch, megis ysbyty, neu i'w cadw nhw mewn lle o'r fath

grym ymhob un ond dau o'r heddluoedd a arolygwyd gan HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM yn ystod y flwyddyn, roedd y llywodraethiad a'r oruchwyliaeth ar y defnydd o rym yn annigonol. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle ysgrifennodd y sefydliadau at yr holl Brif Gwnstabliaid yn eu cynghori nhw am y disgwyliad bod y llywodraethiad ar y defnydd o rym yn gwella. Mynegodd Arolygiaeth Carchardai EM, MICFRS a ICVA bryder bod rhai lluoedd yn tynnu dillad gan garcharorion trwy rym fel ffordd o reoli hunan-niweidio, yn lle ystyried opsiynau eraill megis lefelau uwch o arsylwad fel yr opsiwn cyntaf i reoli'r risg yma.

Adroddwyd am 23 marwolaeth o fewn neu ar ôl bod yn nalfa'r heddlu yn ystod y flwyddyn, sef y ffigur uchaf mewn degawd.[14]

**Adolygiad o farwolaethau a digwyddiadau difrifol yn nalfa'r heddlu yng Nghymru a Lloegr**

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd y ddogfen *Report of the Independent Review of Deaths and Serious Incidents in Police Custody*.[15] Gwnaethpwyd yr adolygiad gan y Fonesig Elish Angiolini a chychwynnodd hithau'r gwaith ym mis Hydref 2015 i archwilio'r trefnau a'r prosesau o amgylch marwolaethau a digwyddiadau difrifol yn nalfa'r heddlu yng Nghymru a Lloegr, canfod meysydd i'w gwella a datblygu argymhellion. Gwnaeth yr adroddiad nifer o ganfyddiadau ac argymhellion sy'n berthnasol i waith aelodau'r NPM, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â defnyddio dulliau cyfyngu, meddwdod, deffro carcharorion, gofal meddygol ac iechyd meddwl. Bu Arolygiaeth Carchardai EM a HMICFRS yn ystyried yr argymhellion hyn wrth adolygu eu disgwyliadau *Expectations for Police Custody*. Datblygodd ICVA friff i'w aelodau a sesiwn hyfforddi i ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad a ddarparwyd yn ystod 2018.

Yn gyffredinol, adroddodd pobl a ddaliwyd yn nalfa'r heddlu yn yr Yr Alban i HMICS ac ICVS eu bod yn fodlon gyda'r driniaeth a gawsent. Ond, parhaodd HMICS i ganfod rhai o'r un problemau a meysydd sydd angen eu gwella y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiadau blaenorol. Yn arbennig, soniodd HMICS am bryderon am gywirdeb asesiadau risg y carcharorion – nid oedd hi'n glir bob amser pam yr ystyrid carcharor yn risg isel neu uchel ac nid oedd y rhesymeg am y cynlluniau gofal dilyniol yn amlwg weithiau. Roedd hynny er gwaethaf y ffaith fod yr holiadur i ganfod pa mor agored i niwed yw pobl (a ddefnyddiwyd gan yr heddlu wrth gofrestru rhywun yn y ddalfa) wedi cael ei adolygu i gynnwys cwestiynau newydd sy'n sicrhau gwybodaeth ychwanegol a ddylai gynorthwyo i ddatblygu cynlluniau gofal i bob carcharor. Yn ogystal, roedd gan HMICS bryderon sylweddol am lendid a hylendid yng nghanolfan gadw Dundee, a sbardunodd weithredu ar unwaith gan Heddlu'r Alban. Y materion oedd yn ailgodi a godwyd gan ICVS oedd gofal nad yw'n ymwneud â rhyw benodol, gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad oedd unrhyw staff benywaidd ar ddyletswydd i ofalu am garcharorion benywaidd, a gwahaniaethau

14 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, *Marwolaethau yn ystod neu yn dilyn cysylltiad â'r heddlu: Ystadegau i Gymru a Lloegr 2017/18*, Gorffennaf 2018, ar gael ar https://www.policeconduct.gov.uk/news/iopc-publishes-figures-deaths-during-or-following-police-contact-201718, a gyrchwyd 6 Awst 2018.

15 Mae'r adroddiad ar gael ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655401/Report_of_Angiolini_Review-ISBN_Accessible.pdf, a gyrchwyd 20 Tachwedd 2018.

rhwng y ddarpariaeth gofal iechyd. Yn ystod y flwyddyn, daeth y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016 i rym, gan gyflwyno newidiadau sylweddol i drefnau arestio a charcharu yn Yr Alban. Roedd arolygon a wnaed gan HMICS ers cyflwyno'r Ddeddf wedi canfod bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar ofynion y Ddeddf ac roedd y gofynion hyn (megis sicrhau awdurdod priodol i'r carchariad) wedi eu cyflawni. Ond, roedd angen gwneud gwelliannau wrth esbonio hawliau cyfreithiol carcharorion, ac ymysg y gwelliannau hynny yr oedd darparu fformat hawdd ei ddeall i'r rheiny gydag anawsterau cyfathrebu.

Yng Ngogledd Iwerddon, cynyddodd y defnydd o ddalfa fel lle diogel yn sylweddol, gyda 19 o ddalfeydd o dan Erthygl 130(1) Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, o'i gymharu â phump yn 2016–17.

### Mannau cadw mewnfudo

Adroddodd Arolygiaeth Carchardai EM ganfyddiadau ac argymhellion o ddau arolwg o ganolfannau symud mewnfudo yn ystod y flwyddyn, gan nodi canlyniadau amrywiol rhwng y ddwy ganolfan. Gwelwyd gwelliannau yn Yarl's Wood, lle'r oedd y canlyniadau i'r rhai a ddaliwyd o leiaf yn rhesymol dda. Fodd bynnag, am y trydydd arolwg yn olynol, methodd Harmondsworth â darparu canlyniadau derbyniol mewn perthynas â diogelwch a pharch. Fel yr adroddwyd yn adroddiad blynyddol NPM y llynedd, roedd ansawdd adroddiadau rheol 35 wedi gwella eto, er, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, roedd nifer o adroddiadau heb ddarparu gwybodaeth ddigonol i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau. Dim ond 10% o adroddiadau rheol 35 yn Harmondsworth ac oddeutu 30% o adroddiadau yn Yarl's Wood arweiniodd at ryddhau, gan arwain Arolygiaeth Carchardai EM i godi pryderon am y nifer o bobl oedd yn parhau i gael eu cadw er gwaethaf tystiolaeth broffesiynol i ddangos eu bod wedi dioddef artaith. Er bod oddeutu dwy ran o dair o bobl wedi cael eu cadw am lai na mis, parhaodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i adrodd esiamplau o bobl yn cael eu cadw am gyfnodau sylweddol o amser, gan gynnwys cyfnod o bedair blynedd a hanner mewn un achos yn Harmondsworth.

**Brook House**

Ym mis Medi 2017 darlledodd y BBC raglen am Brook House, canolfan symud mewnfudwyr (IRC) gerllaw Maes Awyr Gatwick, a redir gan y contractwr G4S ar ran y Swyddfa Gartref.[16] Roedd y rhaglen yn dangos yr hyn oedd yn ymddangos yn gamdriniaeth ar garcharorion, gan gynnwys ymddygiad treisgar a bygythiol gan rai aelodau o staff tuag at garcharorion. Mewn ymateb i hyn, cafodd sawl aelod o staff eu hatal o'u swyddi dros dro a chychwynnwyd ymchwiliadau gan G4S, y llywodraeth a'r heddlu. Cyn i'r ymchwiliadau hynny ddod i ben, cododd aelodau'r NPM bryderon y gallai triniaeth fel yma fod yn digwydd mewn canolfannau eraill. Felly mabwysiadodd Arolygiaeth Carchardai EM fethodoleg arolygu manylach mewn arolwg dilynol o ganolfan symud mewnfudo Harmondsworth, yn cynnwys cynnig cyfweliad i'r holl garcharorion a rhoi cyfle i bob aelod o staff gwblhau arolwg ar-lein cyfrinachol. Bydd Arolygiaeth Carchardai EM yn parhau i ddefnyddio methodolegau manylach

16 BBC, *Panorama*, 'Undercover: Britain's immigration secrets', a ddarlledwyd 4 Medi 2017.

tebyg lle mae wedi tynnu sylw at bryderon am ddiogelwch y rheiny sy'n cael eu dal mewn dalfa mewnfudo.

Yn gyffredinol, canfu archwiliadau o gyfleusterau cadw tymor byr nad ydynt yn rhai preswyl bod yr amodau'n ddigonol i'r rheiny sy'n cael eu cadw am gyfnodau byrion. Ond, codwyd rhai pryderon a oedd yn cynnwys cyfnodau cadw hirion heb gael defnyddio cawod a chyfleusterau cysgu, a charcharorion yn cael eu hebrwng mewn cyffion lle gallai'r cyhoedd eu gweld ym Meysydd Awyr Luton a Stansted. Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM un adroddiad o arolwg o hebryngiad tramor ar hediad siartredig i Jamaica, oedd yn tynnu sylw at bryderon am ddefnydd gormodol o ddulliau cyfyngu, gan gynnwys defnyddio beltiau gwasg cyfyngu ar rai carcharorion heb asesiad risg priodol. Parhaodd y Byrddau Monitro Annibynnol i weld defnydd gormodol o ddulliau cyfyngu ar rai teithiau hebrwng tramor eraill ar hediadau siartredig drwy gydol y flwyddyn.

Adroddwyd am bum marwolaeth o fewn neu yn syth ar ôl cyfnod mewn dalfa mewnfudo yn ystod y flwyddyn, yr oedd tri ohonynt yn achosion o hunanladdiad. Yn y flwyddyn flaenorol, cafwyd chwe marwolaeth yr adroddwyd amdanynt, yn cynnwys dau a gafodd eu hachosi gan yr hunan ac un achos o ddynladdiad. Cyn 2016–17, roedd marwolaethau o fewn neu'n syth ar ôl cyfnod mewn dalfa mewnfudo (heblaw am farwolaethau o achosion naturiol) yn brin.[17]

## Carchariad iechyd a gofal cymdeithasol

Er gwaethaf y toriadau i'r ariannu i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr yn ystod y flwyddyn, canfu CQC bod y gwasanaethau yn gyffredinol yn gweithredu ar faterion a godwyd yn ystod ymweliadau CQC, ac roedd tuedd cyffredinol tuag at welliant yn y meysydd a fesurwyd yn ystod ymweliadau gan ei adolygwyr Deddf Iechyd Meddwl (MHA). Mae hyn yn atseinio profiad ymweliadau rheoliadol CQCs, lle'r oedd 67% o'r 93 o ymddiriedolaethau iechyd meddwl y GIG ac ysbytai annibynnol oedd wedi cael sgôr gwreiddiol o 'angen gwella' wedi gwella i 'dda' pan gawsent eu harolygu eto.

Ond, parhaodd CQC yn bryderus am ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwyd ar wardiau iechyd meddwl, ac yn arbennig ar wardiau dwys i oedolion o oedran gweithio. Roedd angen gwelliannau i gymryd lle neu i adnewyddu wardiau oedd wedi eu lleoli mewn adeiladau anaddas, i annog staff i weithio yn yr amgylchiadau heriol yma, ac i sicrhau bod gan gleifion fynediad i ystod lawn o ymyraethau gofal. Roedd y ffactorau yma wedi'u cyfyngu i allu gwasanaethau i ddarparu'r gofal a'r driniaeth orau i gleifion a gedwir o dan yr MHA, ac i wneud hynny mewn ffyrdd oedd yn ateb disgwyliadau'r egwyddorion arweiniol sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer MHA. Hefyd cododd CQC bryderon ynghylch diogelwch rhag ymosodiad rhywiol ac ymyrraeth rywiol ar wardiau iechyd meddwl, gan gynnwys sut yr oedd gwasanaethau'n ymateb i ddigwyddiadau.

Yn ystod y flwyddyn, roedd canfyddiadau CQC mewn perthynas ag ysbytai diogelwch uchel Broadmoor a Rampton wedi arwain at sefyllfa lle ysgrifennodd CQC at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (sef y Gwir Anrhydeddus Jeremy Hunt AS bryd hynny) i roi gwybod

17 *Adroddiad Blynyddol 2017–18 Prif Arolygydd Carchardai EM i Gymru a Lloegr*, Gorffennaf 2018, https://www.justiceinspectorates. gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/07/6.4472_HMI-Prisons_AR-2017-18_Content_A4_Final_WEB.pdf, cyrchwyd 8 Awst 2018.

iddo am bryderon. Roedd y rhain yn cynnwys prinder nyrsys cofrestredig, a arweiniodd at gyfyngiadau ar fynediad cleifion i therapïau a gweithgareddau ac weithiau gynnydd mewn risg i gleifion, ac nad oedd staff bob amser yn monitro ac yn adolygu cleifion oedd mewn ynysiad a gwahaniad tymor hir yn unol ag arweiniad yn y Cod Ymarfer. Yn dilyn yr ymyrraeth yma, dangosodd y ddau ysbyty welliant sylweddol.

Parhaodd CQC i weld amrywiaeth yng ngweithrediad trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLS) yn Lloegr drwy gydol y flwyddyn, heb ddefnydd cyfartal ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd oedi mewn prosesu ceisiadau DoLS wedi parhau i fod yn broblem. Roedd y llywodraeth wedi cynllunio newidiadau rheoliadol i DoLS yn ystod y flwyddyn. Nod y newidiadau hyn yw symleiddio'r broses ymgeisio ac asesu a gostwng biwrocratiaeth y system DoLS bresennol.

Canfu AGIC ofal penodol i'r unigolyn, oedd wedi'i ganolbwyntio ar y claf, ledled Cymru ac roedd cleifion a pherthnasau, ar y cyfan, yn bositif am y gofal, y gefnogaeth a'r driniaeth yr oeddent wedi'i dderbyn. Ni nodwyd unrhyw fethiannau mawrion yng ngweinyddiaeth yr MHA drwy Gymru gyfan, er bod argymhellion wedi'u gwneud am welliannau i ddogfennaeth mewn rhai lleoliadau annibynnol. Cymerwyd camau am ddiffyg cydymffurfio mewn dau leoliad iechyd meddwl annibynnol yn ymwneud â'r defnydd gormodol o gyfyngiad corfforol ac ynysu, a gohiriwyd cofrestriad lleoliad annibynnol arall oherwydd arwyddion o risg sylweddol i ddiogelwch y claf. Nid oedd amgylchiadau nifer o'r wardiau yr ymwelwyd â nhw o'r safon gofynnol, ac roedd rhai materion amgylcheddol yn effeithio ar breifatrwydd y claf a'i urddas, a rhai ar ddiogelwch y claf. Arweiniodd y pryderon sylweddol am yr amgylchedd mewn un uned at ei gael yn anaddas i'w bwrpas a ddim yn briodol i ddarparu gofal diogel. Gwnaethpwyd argymhellion i wella'r rheolaeth ar feddyginiaeth ymhob arolwg. Gwelwyd prinder staff ar draws y sector.

Adroddodd RQIA am bryderon ynghylch y diffyg amgylcheddau diogel a therapiwtig ar dri safle ysbyty yng Ngogledd Iwerddon. Roedd pryderon hefyd mewn perthynas â throsglwyddo cleifion rhwng darparwyr mewn rhai cyfleusterau cleifion mewnol, gan achosi risg i ddiogelwch cleifion a staff, ac oedi mewn rhyddhau cleifion gydag anabledd dysgu. Nododd RQIA gynnydd yn y nifer o blant oedd yn cael eu rhoi ar wardiau oedolion yng Ngogledd Iwerddon, o ddau yn 2016–17 i chwech yn 2017–18. Ar bum achlysur, y rheswm am hynny oedd nad oedd gwelyau ar gael yn y Ganolfan Triniaeth Rhanbarthol.

Fodd bynnag, roedd RQIA yn fodlon gyda'r mesurau diogelu a roddwyd yn eu lle gan y darparydd yn ystod y derbyniad bob tro.

**Dalfa'r Llys**

Cafwyd adroddiadau gan Arolygiaeth Carchardai EM ac Arsyllwyr Lleyg drwy gydol y flwyddyn bod yr amodau ffisegol yn ystafelloedd dalfa llysoedd a arolygwyd ac a gafodd eu monitro yng Nghymru a Lloegr yn wael, gyda llawer o gelloedd yn fudr ac mewn cyflwr gwael. Gwelwyd hefyd bryderon am adnabod a rheoli'r risg i garcharorion, oedd yn cynnwys methu cwblhau asesiadau risg unigol i garcharorion, a nododd Arolygiaeth Carchardai EM bod cyffion yn cael eu rhoi yn aml heb wneud asesiad risg o'r unigolyn. Dywedodd Arolygiaeth Carchardai EM ac Arsyllwyr Lleyg bod llawer o garcharorion yn treulio

cyfnod hirach na'r angen yn nalfa'r llys, hyd yn oed pan oedd staff wedi gofyn i'w hachosion gael eu blaenoriaethu. Yn gyffredinol gwelwyd bod staff dalfa'r llys yn broffesiynol a chyfeillgar yn eu hymwneud â charcharorion.[18]

## Gwaith thematig ar faterion y ddalfa

Mae'r NPM cyfan a'i aelodau (yn unigol ac ar y cyd) yn gwneud ystod o waith thematig ar faterion y ddalfa er mwyn archwilio meysydd o bryder, cael gwell dealltwriaeth o bynciau arbennig, darparu gwybodaeth i wneuthurwyr polisi i ddod â newid ac i gryfhau eu harferion gweithio eu hunain.

**Gwaith thematig NPM ar y cyd ar y ddalfa**
Mae'r NPM wedi cwblhau gwaith ar ddau brosiect ac wedi cychwyn gwaith ar drydydd prosiect.

***Ynysu – arweiniad i gyrff monitro NPM***
Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd NPM ei arweiniad ar ynysu yn y ddalfa. Mae'r arweiniad yn darparu fframwaith cynhwysfawr y dylai aelodau NPM ei ddefnyddio wrth archwilio ynysiad yn y ddalfa, sydd â'r potensial i roi lle i gamdriniaeth. Mae'n amcanu i wella cysondeb y monitro o'r defnydd o ynysu a gadael i aelodau NPM bennu a hybu arferion da ac arferion gwell. Bydd yr arweiniad a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio'n darparu sail ar gyfer ffurfio argymhellion i gryfhau'r polisi.

Mae aelodau NPM yn parhau i weithio i ymgorffori'r arweiniad yn eu gwaith arolygu a monitro. Mae hyn wedi cynnwys:

- Arolygiaeth Carchardai EM yn defnyddio'r arweiniad wrth bwyso a mesur safonau hawliau dynol ar gyfer ei adolygiad o *Expectations: Criteria for assessing the treatment of and conditions for men in prisons* ac *Expectations for immigration detention: Criteria for assessing the conditions for and treatment of immigration detainees;*
- trafodaeth am yr arweiniad mewn cyfarfod o Gadeiryddion Llundain IMB oedd yn ystyried defnyddio cadw carcharorion ar eu pennau eu hunain a rôl IMBs mewn adolygiadau o gadw carcharorion ar eu pennau eu hunain; a
- ICVA yn lledaenu'r arweiniad i'r holl gynlluniau i'w ystyried mewn sefyllfaoedd pan mae carcharorion yn cael eu cadw am gyfnodau estynedig lle drwgdybir eu bod yn cuddio cyffuriau. Bydd ICVA yn cynnwys yr arweiniad yn eu hyfforddiant ar y mater yma yn 2018–19.

***Trosglwyddiadau a llwybrau***
Yn 2015, cytunodd aelodau'r NPM i ganolbwyntio ymdrechion ar y cyd ar archwilio'r llwybrau rhwng gwahanol leoliadau cadw ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl, a'r trosglwyddiadau o ddalfa plant i ddalfa oedolion mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol.[19] O ystyried bod aelodau NPM fel arfer yn archwilio triniaeth ac amodau yn y ddalfa drwy edrych ar sefydliad unigol, roeddent yn awyddus i archwilio materion yn ymwneud â thrin carcharorion yn ystod symudiadau o un sefydliad i un arall nad oedd y dull yma'n ei gynnwys. Roedd yr NPM eisiau

18 I weld argymhellion a chanfyddiadau manylach, gwelwch adroddiad yr Arsyllwyr Lleyg, *Annual Report to the Secretary of State for Justice*, Gorffennaf 2018, sydd ar gael ar https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/layobservers-prod-storage-nu2yj19yczbd/uploads/2018/07/ Lay-Observer-Annual-Report-17-18.pdf, a gyrchwyd 8 Awst 2018, a *HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2017–18,* Gorffennaf 2018, sydd ar gael ar https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/ sites/4/2018/07/6.4472_HMI-Prisons_AR-2017-18_Content_A4_Final_WEB.pdf, gyrchwyd 8 Awst 2018.

19 Cafodd y gwaith trosglwyddiadau ei arwain gan is-grŵp Plant a Phobl Ifanc yr NPM, gyda chyfraniadau gan Gomisiynydd Plant Lloegr, Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon ac Arolygiaeth Carchardai EM. Dim ond ar ddalfeydd cosbol i blant y gallai'r NPM ganolbwyntio yn yr ymarfer yma.

canfod a dogfennu'r risgiau sy'n codi i garcharorion wrth symud rhwng dalfeydd a sut y cânt eu trin yn ystod y symudiadau yma.

Cafodd y gwaith ei gwblhau y llynedd a chafodd y canfyddiadau eu dogfennu yn ein hadroddiad blynyddol 2016–17. Yn 2017–18, cafodd canfyddiadau'r gwaith ar y cyd eu rhannu'n eang gyda rhanddeiliaid, seneddwyr a gwneuthurwyr polisïau oedd yn gweithio ar faterion perthnasol, yn cynnwys Cadeirydd Adolygiad Annibynnol Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Yr Athro Syr Simon Wessely). Cam nesaf y gwaith yma fydd drafftio cyfres o nodiadau briffio byrion yn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau ac argymhellion i ledaenu canlyniadau gwaith NPM yn fwy estynedig.

### *Triniaeth wael yn y ddalfa*

Ym mis Mehefin 2017, bu'r NPM a'r Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste yn cyd-gynnal bord gron ynghylch cwynion a chasglu data ar gamdriniaeth yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig. Daeth y ford gron ag aelodau NPM, academyddion, cyrff anllywodraethol (NGOs) a swyddogion y llywodraeth i drafod sut y mae cwynion am driniaeth wael yn cael eu cofnodi gan fannau carcharu, sut mae triniaeth wael yn cael ei diffinio a'i hystyried mewn gwahanol gyd-destunau carcharu ac i ba raddau y dylai aelodau'r NPM gymryd agwedd gytûn tuag at gamdriniaeth posibl.

Yn dilyn hyn, cytunodd aelodau'r NPM i wneud prosiect thematig ar gamdriniaeth yn y ddalfa yn 2018–19, gyda'r nod o ddarparu arweiniad clir ar y ffordd y dylai aelodau'r NPM ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

### Gwaith thematig aelodau NPM ar fannau cadw

Drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag arolygu a monitro sefydliadau a mannau cadw unigol yn rheolaidd, bu nifer o aelodau'r NPM yn archwilio pynciau penodol, trawstoriadol yn fanwl neu'n gwneud arolygiadau thematig i dynnu sylw at bryderon a gyrru newidiadau.

- Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd CQC adnodd arferion da ar wasanaethau oedd wedi gostwng eu defnydd o arferion cyfyngu, gan gynnwys defnyddio dulliau cyfyngu, ynysu a thawelu cyflym.[20] Roedd hynny mewn ymateb i bryder CQC bod sylw anghyson yn cael ei dalu yn Lloegr i argymhelliad Cod Ymarfer MHA oedd yn galw ar y gwasanaethau iechyd meddwl i ostwng ymyraethau cyfyngu wrth ymateb i ymddygiad heriol. Trwy gydol 2017–18, bu CQC yn ymchwilio achosion o ymosodiad rhywiol neu aflonyddu rhywiol ar wardiau cleifion mewnol, gan arwain at gyhoeddi adroddiad gydag argymhellion i wella arferion yn y dyfodol.[21]
- Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd CCE *Children's Voices: The Wellbeing of Children in Detention in England*, sef adolygiad o brofiadau a barn oddrychol plant mewn mannau cadw.[22] Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd CCE adroddiad,

20 *Deddf Iechyd Meddwl – Ffocws ar raglenni gostwng ymyrraeth cyfyngol mewn gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol,* ar gael ar https://www.cqc.org.uk/publications/themed-work/mental-health-act-restrictive-intervention-reduction-programmes, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

21 *Diogelwch rhywiol ar wardiau iechyd meddwl,* ar gael ar https://www.cqc.org.uk/publications/major-report/sexual-safety- mental-health-wards, a gyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

22 *Lleisiau Plant: Adolygiad o'r dystiolaeth am les goddrychol plant yn y ddalfa yn Lloegr*, ar gael ar https:// www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/11/CCO-review-of-evidence-on-the-subjective-wellbeing- of-children-in-detention-in-England-2.pdf, cyrchwyd ar 21 Tachwedd 2018.

mewn cydweithrediad â'r Fonesig Louise Caset, dan y teitl *Voices from the Inside,* oedd yn canolbwyntio ar brofiadau bywyd merched yn y ddalfa.[23]

- Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd AGIC *Mental Health Hospitals, Learning Disability and Mental Health Act Inspections.*[24] Nododd yr adroddiad blynyddol nifer o ganfyddiadau positif, yn cynnwys mewn perthynas â boddhad y claf a pherthynas bositif rhwng cleifion a staff, ond roedd hefyd yn tynnu sylw at bryderon megis diffyg prosesau cadarn ar gyfer rheoli risgiau, prinder gwelyau i gleifion mewnol a dim digon o staff gyda'r sgiliau a'r wybodaeth gywir.
- Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi nifer o adroddiadau thematig yn ystod y flwyddyn gan gynnwys *Through the Gate Resettlement Services for Prisoners Serving 12 Months or More* (ar y cyd gydag Arolygiaeth Prawf EM), *Children in custody 2016–17, An analysis of 12–18 year-olds' perceptions of their experience in secure training centres and young offender institutions* (ar y cyd gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid), *Life in prison: Living conditions,* ac *Incentivising and promoting good behaviour.*[25]
- Gwnaeth HMIPS astudiaeth thematig ar brofiad carcharorion hŷn, gan gyhoeddi adroddiad ym mis Gorffennaf 2017 dan y teitl *Who Cares? The Lived Experience of Older Prisoners in Scotland's Prisons.* Tynnodd yr adroddiad sylw at heriau cynyddol ateb anghenion poblogaeth carchardai sy'n mynd yn gynyddol hen a bregus, yn cynnwys gofal cymdeithasol, gofal iechyd, gweithgareddau, cyswllt teuluol, symudedd, ac ofnau personol. Argymhellodd yr adroddiad y dylid datblygu strategaeth glir i garcharorion hŷn.[26] Hefyd gwnaeth HMIPS gyfres o arolygiadau yng Ngharchar EM ac YOI Polmont i ddeall y cynlluniau ar gyfer cyflwyno merched ac i asesu unrhyw effaith ar y drefn bresennol. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol o'r arolygiadau yma ym mis Mai 2017, a daeth i'r casgliad nad oedd y ffaith fod merched wedi dechrau dod i Polmont wedi cael effaith niweidiol ar y drefn a'r cyfleoedd i ddynion ifanc oedd yn cael eu cadw yno a bod y merched yn cael elwa o lety mwy modern.
- Yn dilyn adroddiad o ymweliad lle codwyd pryderon am drefniadau gwael i ferched a benywod oedd ar eu mislif yn nalfa'r heddlu, arweiniodd ICVA ymgyrch i wella gofal mislifol. Cyhoeddodd ICVA lythyr agored yn gofyn am newid i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984 Cod C. Croesawyd yr alwad am well deddfwriaeth gan yr Ysgrifennydd Cartref bryd hynny, a bydd ICVA yn parhau â'i waith gyda'r Swyddfa Gartref dros y flwyddyn sy'n dod i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei haddasu a bod gwell arweiniad yn yr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig a roddir i swyddogion yr heddlu gan

23 *Lleisiau o'r tu mewn: Profiadau merched mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel*, ar gael ar https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2018/03/CCO-Voices-from-the-Inside-MARCH-2018-1.odf, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

24 *Ysbytai Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu ac Arolygon Deddf Iechyd Meddwl,* ar gael ar http://hiw.org.uk/docs/hiw/publications/180329mhaen.pdf?lang=en, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

25 Mae holl adroddiadau thematig Arolygiaeth Carchardai EM ar gael ar https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/?s&prison-inspection-type=thematic-reports-and-research, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

26 *Who Cares? Profiad Byw Carcharorion Hŷn yng Ngharchardai Yr Alban,* ar gael ar https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/publications/who-cares-lived-experience-older-prisoners-scotlands-prisons, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

y Coleg Plismona.[27] Hefyd cyhoeddodd ICVA adroddiad thematig am urddas carcharorion ac, yn arbennig, tynnu dillad yn nalfa'r heddlu fel ymateb i risg a aseswyd o hunan-niweidio a defnyddio grym wrth osod carcharorion mewn dillad nad ydynt yn rhwygo. Defnyddiodd yr adroddiad dystiolaeth o'r arolwg gan Arolygiaeth Carchardai EM/HMICFRS a chafodd ei ledaenu o fewn yr NPM ac i'r Cynghorau Penaethiaid Heddlu Cenedlaethol.

- Cyhoeddodd MWCS nifer o adroddiadau thematig. Roedd y cyntaf o'r rhain yn adroddiad o arolwg thematig a wnaethpwyd o bob gwasanaeth iechyd meddwl fforensig diogelwch isel a chanolig yn Yr Alban. Canfu hwn feysydd o arferion da, yn nodedig o amgylch cynllunio gofal, ond codwyd pryderon am oedi wrth symud i fannau diogelwch lefel is, arferion anghyson yn ymwneud â chyfyngiadau ar ddiogelwch, ac anawsterau arbennig i grwpiau bychain sy'n gofyn darpariaeth arbenigol, yn cynnwys merched a phobl gydag anableddau dysgu. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion, gan gynnwys sefydlu amrywiol weithgorau i ddwyn problemau yn eu blaenau, a bydd yr MWCS yn cymryd rhan yn y grwpiau hyn.[28] Yn ogystal, cyhoeddodd MWCS adroddiad monitro ar ddefnyddio'r MHA yn y 10 mlynedd diwethaf, gan dynnu sylw at gynnydd cyson yn y defnydd a wneir o garchariad a chynnydd llym yn ddiweddar mewn carchariad mewn argyfwng. Bu nifer o gyhoeddiadau pellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu parchu ar amrywiol gamau yn y llwybr gofal mewn lleoliadau iechyd meddwl dwys, gan gynnwys *Rights in Mind – a pathway to patients' rights in mental health services,*[29] *Human rights in mental health service,* [30] a chyfres o fideos sy'n ymwneud â hawliau'n cael eu harfer. Yn ogystal, cyhoeddodd adroddiad dan y teitl *The Right to Advocacy,*[31] yn dilyn adolygiad o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn yr Alban yn cyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael i bobl gyda salwch meddwl, anabledd dysgu neu gyflyrau perthnasol.

## Cyflwyno cynigion ac arsylwadau

Mae Ysgrifenyddiaeth yr NPM ac aelodau unigol yr NPM yn gweithio'n galed i gryfhau'r polisïau llywodraethol sy'n berthnasol i fannau cadw ac i arferiad pwerau'r NPM. Eleni, roedd y gyfranogaeth mewn ymgynghoriadau ac mewn datblygu polisïau llywodraethol wedi cynnwys y canlynol:

- Ym mis Ionawr 2018, ysgrifennodd Cadeirydd yr NPM at Gadeirydd Adolygiad Annibynnol Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Yr Athro Syr Simon Wessely) yn codi pryderon am ansawdd y data am fannau cadw iechyd meddwl ac yn rhannu argymhellion y Pwyllgor Ewropeaidd

27 Mae gwybodaeth ar gael am y gwaith yma ar https://icva.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/ICVA_Press_Release_FINAL. pdf, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

28 *Adroddiad Ymweld a Monitro: Wardiau fforensig diogelwch canolradd ac isel,* ar gael ar https://www.mwcscot.org.uk/media/385624/medium_and_low_secure_forensic_wards.pdf, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.

29 *Rights in mind*, ar gael ar https://www.mwcscot.org.uk/media/367147/rights_in_mind.pdf, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.

30 *Canllaw i Arferion Da: Hawliau Dynol yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl*, ar gael ar https://www.mwcscot.org.uk/media/369925/human_rights_in_mental_health_services.pdf, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.

31 *Adroddiad Ymweld a Monitro: Yr Hawl i Eiriolaeth*, ar gael ar https://www.mwcscot.org.uk/media/395529/the_right_to_advocacy_march_2018.pdf, cyrchwyd 9 Gorffennaf 2018.

ar gyfer Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Annynol neu Ddiraddiol (CPT) am wella diogelwch i gleifion er mwyn atal camdriniaeth. Anfonwyd llythyr dilynol ym mis Mawrth 2018 i dynnu sylw at y gwaith llwybrau a throsglwyddiadau a gwblhawyd gan yr NPM.

- Gwnaeth yr NPM ac Arolygiaeth Carchardai EM gyflwyniad ar y cyd i Gyngor Ewrop mewn perthynas â'u Hofferyn Cyfundrefnu Rheolau Ewropeaidd ar Gadw Mewnfudwyr yn Weinyddol.
- Gwnaeth CI nifer o gyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyniadau i ymgynghoriadau Llywodraeth yr Alban ar Ddeddf Plismona Drafft 1997 a Gorchymyn Adferiad 2018 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (Yr Alban) 2007, sef strategaeth ddrafft i atal a chael gwared â thrais yn erbyn merched a menywod, a chynigion am ddiwygio'r Ddeddf Oedolion gydag Analluedd (Yr Alban) 2000. Cyflwynwyd ymatebion hefyd i ymgynghoriad seneddol ar yr arfaethedig Fil Plant (Diogelwch Cydradd rhag Ymosodiad) (Yr Alban) ac ymgynghoriad Heddlu'r Alban ar Gynllun Heddlu Blynyddol 2018/19. Yn ogystal, darparodd CI dystiolaeth lafar i Bwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Senedd yr Alban yn rhan o'i ymholiad i mewn i Amddifadrwydd, Lloches a Statws Mewnfudo heb Ddiogelwch yn Yr Alban. Cymerodd yr Arolygiaeth Gofal safle ar y Bwrdd Strategol Gofal Diogel, a ffurfiwyd gyda'r nod o ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i bobl ifanc mwyaf agored i niwed Yr Alban. O dan nawdd y Bwrdd Strategol Gofal Diogel, cychwynnodd yr Arolygiaeth Gofal gyd-gadeirio grŵp i ddatblygu llwybr i bobl ifanc. Mae hwn wedi'i anelu at wella eu profiadau a'u canlyniadau drwy gyfres gydlynol o ddisgwyliadau a safonau ar draws y continwwm o gymhorthau dwys, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac urddas a bod eu hawliau dynol yn cael eu parhau. Cymerodd yr Arolygiaeth Gofal hefyd gynrychiolaeth ar Fwrdd y Rhaglen ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai a bydd yn cyfrannu at waith y Bwrdd hwn i ddatblygu canlyniadau wedi'u diffinio a dangosyddion cysylltiedig ar gyfer iechyd a lles pobl yn y carchar, trosglwyddiad eu gofal i mewn ac allan o'r carchar a datblygu modelau ar gyfer integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai.
- Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y CQC i ymgysylltu gydag adolygiad annibynnol yr MHA, gan weithio gyda phanel cynghori a gweithgor yr adolygiad. Hefyd, gwnaeth werthusiad cydweithredol o weithrediad y Cod Ymarfer MHA gyda chleifion, darparwyr ac arbenigwyr, er mwyn helpu i ganfod atebion ymarferol i wella meysydd o arfer. Bu'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar ba wasanaethau a ffactorau proffesiynol all gael effaith uniongyrchol ar y profiadau a'r canlyniadau i bobl sy'n cael eu heffeithio gan y Ddeddf.
- Ym mis Mawrth 2018, bu'r CCE yn cadeirio cyfarfod bord gron yn 10 Downing Street a dynnodd ynghyd Dr Phillip Lee, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol bryd hynny dros Gyfiawnder Ieuenctid, Dioddefwyr, Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd Troseddwyr, a llywodraethwyr carchardai, sefydliadau gwirfoddol a llywodraeth leol i ganfod beth oedd y sialensiau gweithredol a pholisi ac atebion i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y ddalfa.
- Gwnaeth HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM gyflwyniadau ar y cyd mewn perthynas ag ymgynghoriad Statudol y Swyddfa Gartref ar adolygu

codau PACE C, H, E ac F ac i adolygiad y Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol o'i Safonau Cenedlaethol. Bu HMICFRS hefyd yn parhau i gyflwyno canfyddiadau ei arolygon yn rheolaidd i Fwrdd Strategaeth PACE y Swyddfa Gartref.

- Ymatebodd Arolygiaeth Carchardai EM i nifer o ymgynghoriadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys: adolygiad y Swyddfa Gartref o Orchymyn y Gwasanaethau Cadw 'Gofal a rheolaeth ar garcharorion trawsrywiol a rhyngrywiol' a Gorchymyn y Gwasanaethau Cadw 'Systemau Camerâu Gwyliadwriaeth', y Bwrdd Cynghori ar Droseddwyr Benywaidd mewn perthynas â'r strategaeth troseddwyr benywaidd; adolygiad y Siarter Marw gydag Urddas yn y Ddalfa gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; ymgynghoriad y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau ar ddefnyddio cyffuriau gwella perfformiad a delwedd; ymgynghoriad Cynulliad Llundain ar Ferched yn y System Cyfiawnder Troseddol; adolygiad yr Erfyn Monitro Cydraddoldeb gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi; yr adolygiad blynyddol gan Fwrdd Plant Diogelu Lleol o'r trefnau diogel a'r defnydd o ddulliau cyfyngu yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Cookham Wood a Chanolfan Hyfforddiant Diogel Medway; ac ymgynghoriad y Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Iechyd a Gofal ar atal hunanladdiad mewn lleoliadau cymunedol a dalfeydd. Yn ogystal, darparodd Arolygiaeth Carchardai EM dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymholiad Pwyllgor Dethol Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin i Weddnewid Adsefydliad a thystiolaeth ysgrifenedig i'w Boblogaeth yn y Carchardai 2022: cynllunio ar gyfer ymholiad y dyfodol.
- Rhoddodd HMIPS dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig ar bleidleisio carcharorion i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a thystiolaeth am ddefnyddio remand i Bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban.
- Bu ICVA yn cymryd rhan yn adolygiad yr MHA, gan ddarparu gwybodaeth am bryderon a heriau allweddol yn nalfa'r heddlu, cyfrannodd at ganllaw'r Swyddfa Gartref ar gomisiynu gwasanaethau Oedolion Priodol i oedolion agored i niwed yn nalfa'r heddlu, a chymryd rhan mewn ymgynghoriad ar PACE Cod C, oedd yn ffurfioli hawliau'r rheiny oedd yn mynd i gyfweliadau gwirfoddol. Yn ogystal, cyflwynodd ICVA ei ganfyddiadau i'r Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa a Bwrdd Strategaeth PACE y Swyddfa Gartref yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.
- Darparodd IMBNI ymateb i ddogfen drafodaeth Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon, Prisons 2020.
- Gwnaeth MWCS gyflwyniadau i Bwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban mewn perthynas â'r ymholiad i ofal iechyd mewn carchardai, ac yn dilyn galwad am sylwadau am Ddeddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015. Hefyd cyflwynodd MWCS dystiolaeth i adolygiad annibynnol o gymorth cyfreithiol yn Yr Alban, i bapur ymgynghori ar gynllun atal hunanladdiad drafft, ac i gynigion am ddiwygio Deddf Oedolion gydag Analluogrwydd (Yr Alban) 2000.
- Gwnaeth SHRC nifer o gyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys i gynigion am ddiwygio Deddf Oedolion gydag Analluogrwydd (Yr Alban) 2000, Ymholiad Senedd Yr Alban i Hawliau Dynol, ac mewn perthynas â phetisiwn yn galw ar Senedd yr Alban i annog Llywodraeth yr Alban i wneud adolygiad eang o ddeddfwriaeth iechyd meddwl ac analluogrwydd yn Yr Alban a Bil Plant (Amddiffyniad Cyfartal rhag Ymosodiad) (Yr Alban).

## Cydweithrediad a chraffu rhyngwladol

### Cydweithrediad

Cydweithiodd yr NPM a'i aelodau'n weithredol gydag ystod o actorion drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys arbenigwr cyrff anllywodraethol mewn atal artaith, arolygiaethau a chyrff monitro o wledydd eraill ac academyddion.

Parhaodd yr NPM i gwrdd yn rheolaidd gydag NPMs Ewropeaidd eraill, gan gynnwys drwy fynd i gyfarfodydd a drefnwyd gan Gyngor Ewrop. Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2017, bu Cadeirydd NPM yn siarad mewn cyfarfod o rwydwaith NPM De Ddwyrain Ewrop a redwyd gan NPM Serbia, lle bu'n siarad am fethodoleg ymweld, monitro ac arolygu NPM y DU, ac yn darparu esiamplau o waith HMIPS, Arolygiaeth Carchardai EM, ICVA a CQC. Hefyd cymerodd yr NPM ran mewn cyfarfod o NPMs Ewropeaidd a gynhaliwyd gan y Gymdeithas er Atal Artaith (APT) a fu'n trafod y syniad o ffurfio rhwydwaith o NPMs dan arweiniad NPMs.

Parhaodd Ysgrifenyddiaeth NPM i fynd i gyfarfodydd y Gweithgor Monitro Cytundeb a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rheolaidd i drafod gwaith cyffredin. Parhaodd yr NPM i fwynhau perthynas adeiladol gyda'r APT, a ddarparodd gyngor defnyddiol i'r NPM ar nifer o bynciau, a dechreuodd gyfarfod gydag Ysgrifenyddiaeth y Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa yn rheolaidd i drafod meysydd lle gallai gwaith fod yn gyflenwol.

Siaradodd CQC, MWCS, RQIA ac Ysgrifenyddiaeth NPM yn rhan o banel o Academi Rhyngwladol y Gyfraith ac Iechyd Meddwl, yn trafod eu rôl mewn gwneud gwaith monitro sy'n cydymffurfio ag OPCAT o fannau cadw iechyd meddwl. Cyfranogodd NPM mewn cyfarfod arbenigol a gynhaliwyd gan Brifysgol Bryste lle mae canfyddiadau'r CPT, mewn perthynas â dalfeydd iechyd meddwl, yn cael eu trafod. Hefyd bu'r Ysgrifenyddiaeth a'r Cadeirydd yn mynd i gyfarfod agoriadol 'rhwydwaith atal artaith' y DU a drefnir gan Goleg Prifysgol Llundain a Phrifysgol Llundain SOAS. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd digwyddiad panel cyhoeddus lle bu Cadeirydd yr NPM yn siarad am waith yr NPM.

Parhaodd aelodau'r NPM i gyfnewid eu profiad gyda chyrff o bob cwr o'r byd oedd â diddordeb mewn gweithredu OPCAT a monitro mannau cadw:

- Roedd CQC yn cynrychioli'r NPM mewn cyfarfod yn Yr Almaen a drefnwyd gan Action Mental Health, lle bu nifer o NPMs yn trafod eu hagweddau tuag at fonitro mannau cadw iechyd meddwl.
- Aeth AGIC i gynhadledd ar 'Fonitro cartrefi i'r henoed' a gafodd ei drefnu ar y cyd gan yr NPMs Almaenaidd ac Awstriaidd, yn ogystal â Chyngor Ewrop
- Darparodd HMICS gyngor a gwybodaeth i ddarpar-aelod o NPM Iwerddon yn ymwneud â monitro dalfa'r heddlu.
- Aeth aelod o dîm arolygu Arolygiaeth Carchardai EM i gynhadledd yn Fienna tua diwedd mis Ionawr ar ran yr NPM dan wahoddiad Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throsedd. Bu'r gynhadledd yn trafod archwiliad o'r rheolau sy'n ymwneud â gwaith yn Rheolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Triniaeth Carcharorion ac adsefydliad carcharorion. Hefyd bu Arolygiaeth Carchardai EM yn croesawu aelod o Gomisiwn Atal Artaith Tiwnisia (NPM Tiwnisia) i gysgodi arolwg, ac ymwelwyr o'r rhaglen secondiad a redir

gan Brosiect Carchardai Affricanaidd i drafod gwaith yr NPM a methodolegau arolygu carchardai.
- Aeth Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban i gynulliad ar arferion NPM a drefnwyd gan NPM newydd Tiwnisia a siaradodd am brofiad yr NPM o ran monitro amodau'r dalfeydd ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed.
- Darparodd IMB gymorth hyfforddiant i'r IMB yn Jersey, a dechreuodd ddatblygu cysylltiadau gyda'r IMB ar Ynys Manaw.
- Bu Swyddog Ymgysylltiad a Chyfranogaeth MWCS yn siarad gyda'r Pwyllgor yn erbyn Artaith ar bwnc cadw yn erbyn gwirfodd. Yn ogystal, aeth Prif Weithredwr MWCS i'r Gyngres Ryngwladol ar Gyfraith ac Iechyd Meddwl a chroesawodd MWCS gynrychiolwyr o Tsieina, gan roi cyflwyniad iddynt ar wasanaethau iechyd meddwl fforensig yn Yr Alban.
- Bu Ysgrifenyddiaeth NPM a nifer o aelodau'r NPM (IMB, ICVA, CQC, Arolygiaeth Carchardai EM, HMIPS, HMICS, SHGRC, RQIA, CJINI) yn cyfarfod gyda staff o Ombwdsmon Cymanwlad Awstralia (cydlynydd NPM Awstralia y dyfodol) i drafod cydlyniad a methodolegau arolygu a monitro'r NPM.

### Craffu rhyngwladol

Cafodd record y Deyrnas Unedig ar hawliau dynol ei archwilio gan nifer o gyrff cytundeb Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig a mandadau arbennig drwy gydol y flwyddyn. Gwnaeth nifer o'r rhain ganfyddiadau ac argymhellion sy'n berthnasol i waith yr NPM.

### *Y Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Annynol neu Ddiraddiol*

Gwnaeth y CPT ei wythfed ymweliad cyfnodol â'r Deyrnas Unedig o 30 Mawrth hyd 12 Ebrill 2016. Bu'r cynrychiolwyr CPT yn ymweld â charchardai, dalfa'r heddlu a'r ddalfa mewnfudiad. Bu hefyd yn ymweld â nifer o sefydliadau iechyd meddwl diogel yn Lloegr am y tro cyntaf. Cyfarfu'r Pwyllgor â'r llywodraeth, aelodau'r NPM a rhanddeiliaid eraill yn ystod ei ymweliad. Cyhoeddwyd adroddiad y CPT ym mis Ebrill 2017 ac roedd yn rhoi manylion pryderon oedd yn cynnwys: y diffyg rheoliad cyson a chasgliad data ar ddefnyddio grym a dulliau cyfyngu yn nalfa'r heddlu; gorlenwi difrifol, lefelau uchel o drais, amodau byw gwael a diffyg gweithgareddau pwrpasol mewn carchardai; y defnydd o gaethiwed yn ystod y nos a'r gofyniad am, a hyd, gwahanu tymor hir mewn dalfa iechyd meddwl; a gwendidau yng ngweithdrefnau Rheol 35 yn y ddalfa mewnfudiad. Canfu'r CPT bod rhai plant yn YOI Cookham Wood yn cael eu cadw, i bob pwrpas, dan amodau caethiwed unigol, oedd yn gyfystyr â thriniaeth annynol a diraddiol. Cyhoeddwyd ateb y Llywodraeth i'r adroddiad ym mis Ionawr 2018.[32] Gwnaeth y CPT ragor o ymweliadau byrion i Loegr i drafod ei ganfyddiadau gyda Llywodraeth y DU, ac yn ystod yr ymweliad yma, bu'r cynrychiolwyr yn cyfarfod â Chadeirydd yr NPM hefyd. Rhannodd yr NPM ganfyddiadau adroddiad y CPT drwy gydol y flwyddyn. Fel y nodwyd uchod, tynnodd yr NPM sylw'r Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 at y canfyddiadau. Bu aelodau'r NPM yn trafod yr argymhellion a wnaed gan y CPT yn ystod cyfarfod busnes mis Hydref 2017 ac mae Ysgrifenyddiaeth

32 Mae adroddiad CPT ac ateb y Llywodraeth ar gael ar https://www.coe.int/en/web/cpt/-/council-of-europe-anti-torture-committee-publishes-response-of-the-uk-authorities, a gyrchwyd 19 Gorffennaf 2018.

yr NPM wedi cynnwys canfyddiadau'r CPT yn ei ddeunyddiau hyfforddi hefyd. Mae Ysgrifenyddiaeth yr NPM wedi annog y llywodraeth hefyd i ledaenu canfyddiadau'r CPT i bob safle cadw yn y Deyrnas Unedig. Yn ogystal, mae Ysgrifenyddiaeth yr NPM a'r Cadeirydd wedi cymryd rhan mewn cyfarfod arbenigwyr a gynhaliwyd gan Brifysgol Essex, lle trafodwyd canfyddiadau CPT mewn perthynas â mannau cadw iechyd meddwl.

Gwnaeth y CPT ymweliad ad hoc ar wahân â Gogledd Iwerddon rhwng 29 Awst a 6 Medi 2017. Bu'r CPT yn archwilio amodau'r man cadw ar gyfer y rheiny, a thriniaeth y rheiny, oedd yn cael eu cadw yng Ngharchar Maghaberry, Carchar Merched Ash House Hydebank Wood, Clinig Shannon a nifer o orsafoedd yr heddlu. Yn ystod yr ymweliad hwn, cyfarfu cynrychiolwyr y CPT gyda CJINI a RQIA a daeth Prif Arolygydd CJINI i gyflwyniad y CPT o'i arsylwadau cychwynnol i'r llywodraeth ar ddiwedd yr ymweliad, Disgwylir i adroddiad yr ymweliad gael ei gyhoeddi cyn hir.

### *Y Pwyllgor ar Hawliau Pobl gydag Anableddau*

Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anableddau'n archwilio cydymffurfiad y Deyrnas Unedig gyda'i oblygiadau oedd yn codi o Gonfensiwn ar Hawliau Pobl gydag Anableddau ym mis Awst 2017. Cyn hynny, cyflwynodd y CCE a'r SHRC adroddiadau cysgodi i'w hystyried gan y Pwyllgor. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i lywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i bobl sydd wedi colli eu rhyddid, yn cynnwys: cael gwared â phob ffurf o ddirprwyo gwneud penderfyniadau; diddymu deddfwriaeth ac arferion sy'n caniatáu dal a thrin pobl gydag anableddau yn anwirfoddol ar sail y nam gwirioneddol neu'r nam ymddangosiadol; archwiliad a gwarediad yr holl fathau o gamdriniaeth i bobl gydag anableddau mewn cyfleusterau sefydliadol; a chael gwared â defnyddio dulliau cyfyngu am resymau sy'n ymwneud ag anabledd ymhob lleoliad.[33]

### *Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol*

Cafwyd trydydd Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol (UPR) y Deyrnas Unedig ym mis Mai 2017. Gwnaethpwyd cyfanswm o 227 o argymhellion, ac o'r rhain dywedodd llywodraeth y Deyrnas Unedig ei fod wedi gweithredu, neu y bydd yn gweithredu 96. Archwiliodd y broses UPR weithrediad y llywodraeth o'i holl oblygiadau hawliau dynol, yn cynnwys mewn perthynas â cholli rhyddid a gwahardd artaith a chamdriniaeth arall. Roedd yr argymhellion oedd yn berthnasol i fandad yr NPM yn cynnwys: caniatáu ar gyfer cwynion unigol o dan CAT; gweithredu gwaharddiad cyflawn ar artaith; cymryd camau i wella diogelwch y carcharor ac amodau mewn carchardai; ystyried mabwysiadu cynlluniau gweithredu i ostwng gorlenwi carchardai ac ymdrin â hunan-niweidio mewn carchardai; cyflwyno cyfyngiad amser ar gadw yn y ddalfa mewnfudo.

33 *Sylwadau'r casgliadau yn adroddiad cychwynnol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon,* Dogfen y Cenhedloedd Unedig CRPD/C/GBR/CO/1, 3 Hydref 2017, ar gael ar https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/TreatyBodyExternal/countries. aspx?CountryCode=GBR&Lang=EN, cyrchwyd 19 Gorffennaf 2018.

# Adran tri
# Cryfhau'r NPM

## Yr NPM yn 2017–18

Yn unol ag OPCAT, cenhadaeth yr NPM yw atal camdriniaeth wael drwy wneud arolygiadau a gwaith monitro annibynnol ar fannau cadw yn y Deyrnas Unedig. Bob blwyddyn mae'r NPM yn gosod targedau strategol sydd wedi'u llunio i'w helpu i gyflawni'r genhadaeth hon. Ar gyfer 2017–18 y targedau hyn oedd atal camdriniaeth carcharorion drwy:

a) gydweithio fel aelodau o'r NPM i gryfhau diogelwch y rheiny mewn mannau cadw yn y Deyrnas Unedig;
b) adeiladu NPM sy'n effeithiol am ddarparu holl ofynion OPCAT;
c) sicrhau fod pob aelod o'r NPM yn gweithredu ei gyfrifoldebau ei hun o dan OPCAT; a
d) chynyddu gwelededd ac ymwybyddiaeth am waharddiad camdriniaeth mewn mannau cadw, y Confensiwn yn Erbyn Artaith, OPCAT a rôl yr NPM mewn ataliad.

Mae gofyniad hanfodol OPCAT – fod pob man cadw'n cael eu monitro'n annibynnol – yn cael ei gyflawni gan aelodau unigol o'r NPM neu gan aelodau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae canfyddiadau manwl yn ymwneud â thriniaeth ac amodau carcharorion yn cael eu cyhoeddi yn adroddiadau blynyddol neu arolygiadau pob aelod o'r NPM.

Cyfarfodydd busnes ddwywaith y flwyddyn NPM yw ei brif fforwm i aelodau rannu canfyddiadau, arferion gorau, profiadau a gwersi o fonitro gwahanol fathau o awdurdodaethau a mannau cadw. Mae cynllun busnes yr NPM yn cael ei gytuno a'i fonitro yn y cyfarfodydd hyn a gwneir penderfyniadau eraill sy'n gofyn am fewnbwn yr holl aelodau.

Eleni, cynhaliwyd cyfarfodydd busnes ym mis Hydref 2017 yng Nghaeredin ac ym mis Ebrill 2018 yn Belfast.

### Cadeirydd yr NPM

Cymerodd John Wadham rôl Cadeirydd annibynnol cyntaf yr NPM ym mis Mai 2016, yn dilyn proses ddethol agored a chymeradwyaeth ei benodiad gan aelodau'r NPM. Cafodd ei dymor ei adnewyddu gan aelodau'r NPM yng nghyfarfod busnes Hydref 2017.

Rôl y Cadeirydd yw cynghori a chefnogi'r NPM i gyflawni ei fandad, gan gynnwys:

- cadeirio cyfarfodydd grŵp llywio'r NPM dair i bedair gwaith y flwyddyn a chyfarfodydd busnes NPM ddwywaith y flwyddyn;
- cefnogi aelodau'r NPM i ddatblygu a gweithredu gwaith yr NPM a chyflawni eu cyfrifoldebau NPM; a
- siarad yn gyhoeddus ar ran yr NPM a chynrychioli'r NPM mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r Cadeirydd hefyd yn cefnogi Ysgrifenyddiaeth yr NPM i wneud ei rôl.

### Ysgrifenyddiaeth yr NPM

Mae cydlyniad yn hanfodol ar gyfer gweithrediad llawn ac effeithiol OPCAT yn y Deyrnas Unedig, o ystyried graddfa a chymhlethdod y strwythur cyrff niferus sydd gan yr NPM yn y Deyrnas Unedig. Mae gan bob aelod o'r NPM wahanol fandad, pwerau a chylch gorchwyl daearyddol ac mae'n gosod ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer monitro mannau cadw, yn ogystal â chyfrannu at gyd-flaenoriaethau'r NPM.

Cafodd cydlyniad yr NPM ei ddynodi i Arolygiaeth Carchardai EM, sy'n gartref i Ysgrifenyddiaeth NPM. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cyflawni rôl cydlyniad

yr NPM a gwneir y gwaith yma gyda'r dibenion hyn:

- hybu cydlyniad a chyd-ddealltwriaeth o OPCAT ymysg aelodau'r NPM;
- annog cydweithrediad a rhannu gwybodaeth ac arferion da rhwng aelodau'r NPM;
- hyrwyddo gweithgareddau ar y cyd rhwng aelodau ar faterion o bwys cyffredin;
- cysylltu gyda'r SPT, NPM mewn gwladwriaethau eraill a chyrff hawliau dynol rhyngwladol;
- rhannu profiadau ac arbenigedd rhwng NPM y Deyrnas Unedig ac NPMs mewn gwladwriaethau eraill;
- cynrychioli'r NPM cyfan i'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn y Deyrnas Unedig; a
- pharatoi'r adroddiad blynyddol a chyhoeddiadau eraill.

| **Incwm a gwariant Ysgrifenyddiaeth yr NPM 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018** | |
|---|---|
| **Incwm** | |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £61,155 |
| Cyfraniadau aelodaeth | £19,500 |
| **CYFANSWM** | **£80,655** |
| **Gwariant** | |
| Costau staff[34] | £64,357 |
| Teithio a chynhaliaeth | £2,187 |
| Cynllunio'r adroddiad blynyddol, ei argraffu a'i gyfieithu i'r Gymraeg | £10,053 |
| Cyhoeddiadau eraill (taflenni ffeithiau, arweiniad, inffograffeg) | £2,000 |
| Cyfarfodydd a lluniaeth | £635 |
| **CYFANSWM** | **£79,231** |

**Grŵp llywio'r NPM**
Mae swyddogaeth gydlynu, gweithgareddau a llywodraethiad yr NPM yn cael eu goruchwylio gan grŵp llywio o bump aelod o'r NPM. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynrychioli aelodau ymhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig ac o wahanol gylchoedd gorchwyl y sefydliadau sy'n creu'r NPM.

Mae grŵp llywio'r NPM yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd busnes, ac mae'n datblygu cynllun busnes yr NPM a'i gynigion i aelodau.

Cyfarfu'r grŵp llywio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, ym mis Mehefin 2017, Medi 2017, Tachwedd 2017 a Mawrth 2018. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, dyma oedd aelodaeth grŵp llywio'r NPM:

- Peter Clarke, Arolygiaeth Carchardai EM
- Rachel Lindsay, CJINI
- Colin McKay, MWCS
- John Powell, AGIC
- Katie Kempen, ICVA

**Is-grwpiau'r NPM**
Parhaodd tri is-grŵp presennol yr NPM â'u gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Cyfarfu is-grŵp yr Alban ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r grŵp yn cydlynu gweithgareddau'r NPM yn Yr Alban, yn darparu cefnogaeth i aelodau'r NPM, yn codi proffil gwaith yr NPM ac yn gwella'r cysylltiad gyda Llywodraeth yr Alban. Mae'n cael ei gadeirio gan aelod Albanaidd y Grŵp Llywio, sef MWCS ar hyn o bryd.

34 Mae Ysgrifenyddiaeth NPM y Deyrnas Unedig yn cynnwys Cydlynydd yr NPM/Cydlynydd NPM (llenwi cyfnod mamolaeth) (0.5 a 0.6 cyfatebol ag amser llawn) a Chydlynydd Cynorthwyol yr NPM (0.5 cyfatebol ag amser llawn). Mae rôl Cadeirydd yr NPM yn rhan amser ac yn ddi-dâl, gyda threuliau rhesymol yn cael eu had-dalu am wneud y rôl. Mae NPM y Deyrnas Unedig yn gwneud cyfraniad i gostau cyflog staff Arolygiaeth Carchardai EM sy'n darparu cyhoeddiadau, cyfathrebiadau, cyllid a chymorth Adnoddau Dynol i Ysgrifenyddiaeth yr NPM.

Cyfarfu'r rhwydwaith iechyd meddwl ddwywaith y flwyddyn. Mae hwn yn dod â'r gwahanol aelodau ynghyd sydd â diddordeb arbenigol mewn meysydd sy'n berthnasol i fannau cadw iechyd meddwl yn y Deyrnas Unedig. Mae'r is-grŵp yma'n rhoi cyfle i sefydliadau sydd â chyfrifoldebau am fonitro ac amddiffyn pobl mewn lleoliadau cadw iechyd a gofal cymdeithasol i weithio ar y cyd ar faterion sy'n cael effeithiau iechyd meddwl penodol. Mae'r grŵp yma'n cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan MWCS.

Roedd is-grŵp yr NPM sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc mewn safleoedd cadw yn parhau i weithredu fel mecanwaith i aelodau'r NPM gyfnewid gwybodaeth a data, ac ystyried gweithio ar y cyd ar faterion sy'n effeithio ar blant mewn mannau cadw. Mae'r grŵp wedi'i gadeirio gan Gomisiynydd Plant Lloegr.

Yn ystod cyfarfod busnes Hydref 2017, cytunodd aelodau'r NPM i greu pedwerydd is-grŵp yn canolbwyntio ar ddalfa'r heddlu. Cytunodd yr aelodau y byddai'r grŵp dan gadeiryddiaeth HMICS. Bydd yr is-grŵp yn dechrau gweithio yn y flwyddyn 2018–19.

## Ymweliadau ac arolygiadau

Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr arolygiadau ac ymweliadau monitro yn ôl y math o fannau cadw ac awdurdodaeth a wnaed gan aelodau'r NPM yn ystod y flwyddyn. Gallai rhai mannau cadw dderbyn ymweliadau neu fonitro ac arolygiadau. Rhoddir trosolwg o gylch gorchwyl pob aelod o'r NPM yn adran 1. Mae llinell doriad yn y tabl nesaf yn cynrychioli'r ffaith na chafwyd unrhyw arolwg neu ymweliad. Mae'n bwysig nodi na fydd pob man cadw'n cael arolygiad bob blwyddyn. Yn lle hynny, mae arolygiadau'n digwydd mewn cylch o rhwng un a phum mlynedd, yn dibynnu ar y lefel o risg a ddadansoddwyd (a allai gynyddu, gan arwain at symud arolygiad yn gynharach yn y cylch).[35] Gellir ymweld â nifer o fannau cadw ar wahân yn rhan o un arolwg (er enghraifft, nifer o ystafelloedd dalfeydd llys o fewn un ardal ddaearyddol). Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r ffigurau nesaf yn adlewyrchu'r nifer o fannau cadw unigol yr ymwelwyd â nhw. Defnyddir y term 'arolwg' i gyfeirio at graffu ar leoliad cadw gan arolygiaethau neu gyrff eraill gan staff a delir, ac mae'r term 'ymweliad' yn cyfeirio at fonitro, ymweliadau neu arsylwadau a wneir gan gyrff lleyg neu wirfoddolwyr.

35 Mae aelodau NPM unigol yn penderfynu eu hamserlenni arolygu eu hunain. I weld esiampl, gwelwch Arolygiaeth Carchardai EM, *Inspection Framework*, Mai 2017, Adran 3 (rhaglennu arolygiad), ar gael ar https://www.justiceinspectorates.gov.uk/ hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2014/02/1-INSPECTION-FRAMEWORK-May-2017-1.pdf cyrchwyd 19 Gorffennaf 2018.

<table>
<tr><th rowspan="2">Y lleoliad cadw</th><th colspan="4">Yr Awdurdodaeth</th></tr>
<tr><th>Lloegr</th><th>Cymru</th><th>Yr Alban</th><th>Gogledd Iwerddon</th></tr>
<tr><td>Carchardai ac YOI<br>(Arolwg)</td><td>38</td><td>3</td><td>11</td><td>2</td></tr>
<tr><td>(Ymweliadau Monitro)</td><td>46,984</td><td>2,740</td><td>945</td><td>1,000</td></tr>
<tr><td>Dalfa’r heddlu<br>(Arolwg)</td><td>31</td><td>7</td><td>4</td><td>-</td></tr>
<tr><td>(Ymweliadau annibynnol â sefydliadau cadw)</td><td>6,922</td><td>525</td><td>1,455</td><td>448</td></tr>
<tr><td>Llu’r Ffiniau<br>(Arolwg)</td><td>7</td><td>-</td><td>1</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Dalfa’r llys a hebrwng<br>(Arolwg)</td><td>20</td><td>-</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td>(Ymweliadau arsyllu)</td><td>1,691</td><td>110</td><td>-</td><td></td></tr>
<tr><td>Cadw o dan y Ddeddf Terfysgaeth[36]<br>(Ymweliadau annibynnol â sefydliadau cadw)</td><td colspan="2">133</td><td>1</td><td>38</td></tr>
<tr><td>Plant mewn llety diogel[37] (Arolwg)</td><td>43</td><td>2</td><td>6</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Cadw o dan y ddeddf iechyd meddwl<br>(Arolwg)</td><td>1,165</td><td>34</td><td>113</td><td>59</td></tr>
<tr><td>Dalfa mewnfudo[38]<br>(Arolwg)</td><td>11</td><td>-</td><td>1</td><td>-</td></tr>
<tr><td>(Ymweliadau monitro)</td><td>IMB<br>2,691[39]</td><td>-</td><td>370</td><td>-</td></tr>
<tr><td>Dalfa milwrol[40]<br>(Arolwg)</td><td>10</td><td>-</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Cyfleusterau cadw’r tollau<br>(Arolwg)</td><td>6</td><td>-</td><td>1</td><td>-</td></tr>
</table>

36 Gall yr ymweliadau ddigwydd pan fo’r ystafelloedd terfysgaeth yn weithredol a ddim yn weithredol

37 Mae nifer yr ymweliadau monitro â mannau sy’n cadw plant o dan 18 oed wedi’i nodi yn ffigurau’r carchar/YOI oherwydd anhawster gwahanu’r ffigurau yma lle mae’r plant yn cael eu dal ar safleoedd ar wahân gyda’r rheiny dros 18 oed. Mae’r ffigur ar gyfer Gogledd Iwerddon yn cynnwys Canolfan Gyfiawnder Ieuenctid Woodlands.

38 Mae hwn yn cynnwys canolfannau symud mewnfudo (2), cyfleusterau cadw tymor byr (5), ac arolygiadau tynnu carcharorion o dan hebryngiad (4)

39 Mae’r ffigur yma’n cynnwys monitro symud carcharorion o dan hebryngiad (8)

40 Mae hyn yn cynnwys y Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol a chyfleusterau dalfa’r gwasanaeth.

Yn gyfan, gwnaeth aelodau'r NPM o leiaf 1,580 o arolygiadau yn ystod y flwyddyn ac o leiaf 66,053 o ymweliadau monitro.

## Hunanasesiad NPM

Mae aelodau'r NPM yn gwneud hunanasesiad bob blwyddyn gan ddefnyddio methodoleg sydd wedi'i seilio ar 'erfyn hunanasesiad dadansoddol' SPT 'i'r NPMs'. Mae'r erfyn yma'n caniatáu i NPMs archwilio eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd.[41] Dyma'r bumed flwyddyn y gwnaethpwyd yr huanasesiad. O'r 21 o aelodau'r NPM, cwblhaodd 20 yr hunanasesiad a chafodd 80% o'r asesiadau eu hadolygu gan gymheiriaid. Mae'r broses adolygu cymheiriaid yn gofyn bod aelodau'r NPM yn rhannu eu hymatebion gyda'i gilydd i dderbyn adolygiad allanol adeiladol a sicrhau agwedd gyson.

**Canfyddiadau cyffredinol**


Adroddodd yr aelodau am gydymffurfiad llawn gyda 84.3% o'r cwestiynau hunanasesiad, sef gostyngiad bychan ar y 86.5% o gydymffurfiad yr adroddwyd amdano yn y flwyddyn flaenorol.[42] Cynyddodd yr achosion nad oeddent yn cydymffurfio yr adroddwyd amdanynt i 2% o 1.6% yn 2016–17. Mae rhagor o ddadansoddiad yn dangos mai'r rheswm mwyaf am y gostyngiad mewn cydymffurfiad yr adroddwyd amdano yw bod mwy o aelodau wedi adrodd eleni nag yn y ddwy flynedd flaenorol. O ystyried y gwahaniaeth yn y nifer o aelodau a roddodd adroddiad ar draws y blynyddoedd, ni ddylid ystyried bod modd cymharu'r canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn. Yn hytrach, mae'r canlyniadau eleni yn debyg o ddarparu darlun cywirach o gydymffurfiad.

Cafodd ymatebion yr hunanasesiad eu dadansoddi yn unol â'r tri phŵer NPM sylfaenol sydd wedi'u nodi yn Erthygl 19 OPCAT, i : (a) archwilio triniaeth y rheiny sydd wedi colli eu rhyddid; (b) gwneud argymhellion gyda'r nod o wella eu triniaeth a'u hamodau; a (c) chyflwyno sylwadau ar y ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth ddrafft. Mae'r tabl nesaf yn dangos cydymffurfiad aelodau'r PM a adroddwyd gyda phob un o'r pwerau yma.

41 Gellir gweld holiadur hunanasesu NPM y Deyrnas Unedig yn Atodiad 8 y Pumed Adroddiad Blynyddol, sydd ar gael ar https:// s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2015/05/NPM-5th-Annual-Report-2013-14. pdf, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018. Mae copi llawn o'r fethodoleg hunanasesu ar gael ar https://s3-eu-west-2. amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2015/08/UK-NPM-self-assessment-write-up.pdf, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

42 Mae'r canrannau sydd wedi'u hadrodd yn yr adran hon wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ymatebion a roddwyd gan ymatebion a ddarparwyd gan yr 20 aelod a gwblhaodd yr hunanasesiad (yn hytrach na'r cyfanswm o 21 aelod).

**Cydymffurfiad Erthygl 19 2018**




Adroddodd aelodau'r NPM y lefel uchaf o gydymffurfiad gyda phwerau i gyflwyno sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol a drafft. Cynyddodd hyn i 87.2% o 85.3% yn 2016–17 ac o 71.9% yn 2015–16. Adroddodd aelodau am lefelau tebyg o gydymffurfiad mewn perthynas â'r grym i archwilio triniaeth y rheiny a gollodd eu rhyddid dros y tair blynedd diwethaf: 79.7% o gydymffurfiad yn 2017–18; 81.1% o gydymffurfiad yn 2016–17; a 80.8% o gydymffurfiad yn 2015–16. Mae'r lefel o gydymffurfiad a adroddwyd gyda'r gallu i wneud argymhellion wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf o uchafbwynt o 92.4% yn 2015–16 i 86.1% yn 2017–18.

### Canfyddiadau penodol

- Parhaodd yr holl aelodau i adrodd am gydymffurfiad llawn â'r gofyniad i sicrhau bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn ystod eu gwaith wedi'i ddiogelu (C 1.56) ac wrth wneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau pobl sydd wedi colli eu rhyddid ac i atal artaith a chamdriniaeth (C 1.2). Adroddodd yr holl aelodau hefyd eu bod yn cydymffurfio'n llawn mewn perthynas â'r cwestiynau a ganlyn: bod adroddiadau eu hymweliadau'n canolbwyntio ar y materion mwyaf pwysig (C 1.28); a'u bod wedi sefydlu trefn syml a hygyrch i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd (C 1.52).

- Parhaodd yr aelodau i adrodd am y lefelau isaf o gydymffurfiad ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud â sancsiynau, gan gynnwys: a oeddent wedi datblygu strategaeth ar gyfer atal dialedd neu fygythiadau yn erbyn pobl a gyfwelwyd yn ystod ymweliadau a phobl sy'n darparu gwybodaeth yn ystod ymweliadau (C 1.36); p'un a oedd ganddynt bolisi yn nodi'r mathau o wybodaeth y gellir eu casglu mewn cyfweliadau grŵp a'r mathau o wybodaeth na ddylid ond eu casglu mewn cyfweliadau preifat (C 1.37); ac a oeddent yn ceisio sicrhau bod ymchwiliad disgyblaethol neu droseddol yn cael ei gychwyn mewn achosion o ddialedd honedig (C 1.42).
- Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd nifer sylweddol o aelodau'r NPM (ychydig dros ddwy ran o dair o'r rheiny a gwblhaodd yr hunanasesiad) wedi parhau i gydymffurfio'n rhannol yn unig ym maes cydbwysedd rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth grwpiau ethnig a lleiafrifol mewn timau oedd yn ymweld (C 1.17).
- Y sefydliadau oedd wedi'u seilio yn Lloegr oedd y mwyaf positif am eu cydymffurfiad, gan adrodd am 93.1% o gydymffurfiad llawn, o'i gymharu ag aelodau sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd a adroddodd y lefel isaf o gydymffurfiad llawn, sef 75.3%.
- Adroddodd y cyrff proffesiynol am lefel uwch o gydymffurfiad llawn (87.6%) na chyrff lleyg (76.6%).

### Casgliad

Cyflwynir canfyddiadau'r hunanasesiad i aelodaeth yr NPM yn y cyfarfod busnes yn dilyn cwblhad y dadansoddiad. Yng nghyd-destun y ffaith fod y lefelau isaf o gydymffurfiad yr adroddwyd amdano'n parhau i fod mewn meysydd sy'n ymwneud â sancsiynau a chydraddoldeb ac amrywiaeth, cytunodd yr aelodau bod ffocws ar y ddau fater yma'n cael eu cynnwys yng nghynllun busnes yr NPM yn 2018–19. Yn ogystal, bydd y gwaith thematig y bydd yr NPM yn ei wneud ar gamdriniaeth (gwelwch adran 2) yn ystyried materion sy'n ymwneud â sancsiynau. Felly rydym yn gobeithio adrodd am gynnydd mewn cydymffurfiad yn y meysydd hyn yn y blynyddoedd sy'n dod.

## Datblygu'r NPM

Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd yr NPM i weithio i gael mwy o gydnabyddiaeth ac annibyniaeth i'r NPM ac i waith yr NPM ei hun sy'n ymwneud ag OPCAT a phob un o'i aelodau unigol sydd i gael ei roi ar sail ddeddfwriaethol. Barn yr NPM, sydd wedi'i chefnogi gan Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (SPT), yw bod yn rhaid rhoi'r NPM ar sail statudol drwy ddeddfwriaeth sy'n cydnabod ei annibyniaeth ac sy'n adlewyrchu'r pwerau sydd ganddo yn unol ag OPCAT.

Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, ysgrifennodd Cadeirydd yr NPM at y Cyfarwyddwr Barnwrol, Hawliau a Pholisi Rhyngwladol yn yr Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) ym mis Ionawr 2017 i fynegi ei bryder am y diffyg deddfwriaeth sy'n nodi beth yw mandad yr NPM a'i gyrff cyfansoddol, a'r diffyg gwarantau statudol i annibyniaeth ar gyfer yr NPM neu ei aelodau.[43] Yn ogystal, mae'r NPM yn argymell bod sail statudol ar gyfer yr NPM yn cael ei gyflwyno i'r Bil Carchardai a Llysoedd a oedd gerbron y Senedd bryd hynny.[44]

43 *Wythfed Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017*, ar gael ar https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2018/02/6.4122_NPM_AR2016-17_v4_web.pdf, cyrchwyd 19 Gorffennaf 2018.

44 Pwyllgor y Bil Cyhoeddus, *Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan John Wadham, Cadeirydd Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU* (PCB 08).

Ni dderbyniwyd yr argymhelliad yma a chafodd y Bil ei dynnu'n ôl yn dilyn cyhoeddi Etholiad Cyffredinol a diddymiad y senedd ar 3 Mai 2017. Yn dilyn hynny cadarnhaodd y llywodraeth na fyddai'n ailgyflwyno'r Bil yn y senedd newydd.

Ym mis Mehefin 2017, anfonodd Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro'r Grŵp Cyfiawnder a Pholisi Llysoedd lythyr at Gadeirydd yr NPM oedd yn ddyddiedig Ionawr 2017. Cadarnhaodd y llythyr yma mai sefyllfa'r Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd bod yr NPM yn cydymffurfio gyda gofynion OPCAT heb fod angen sail ddeddfwriaethol.[45] Yng nghyd-destun hynny, ysgrifennodd yr NPM at yr SPT yn gofyn ei gyngor am y diffyg sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr NPM a'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cydymffurfio gydag OPCAT.[46] Atebodd yr SPT y llythyr hwn yn Ionawr 2018, yn cadarnhau barn yr NPM bod OPCAT yn gofyn iddo gael ei osod ar sail ddeddfwriaethol glir ac yn nodi y byddai'r SPT yn croesawu'r cyfle i egluro ei sefyllfa i lywodraeth y Deyrnas Unedig ar y cyfle cyntaf.[47] Yn dilyn hyn, mae'r NPM wedi annog llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, i gwrdd â'r SPT i drafod gofynion OPCAT.

Ochr yn ochr ag ymdrechion i sicrhau sylfaen statudol, mae'r NPM wedi parhau i gwrdd â swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i drafod cyfleoedd eraill i gryfhau annibyniaeth yr NPM a chynyddu ymwybyddiaeth am ei rôl. Canlyniad y cyfarfodydd hyn oedd ymrwymiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddatblygu protocol rhwng yr NPM a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn nodi gwarantau annibyniaeth ar gyfer yr NPM a'i bwerau o dan OPCAT.

Mae'r NPM wedi dangos yn glir bod hwn yn gam interim i gydnabyddiaeth mewn deddfwriaeth. Roedd croeso hefyd i'r ffaith fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i gynnal (ochr yn ochr â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad) cyfarfod gyda rhanddeiliaid allweddol y llywodraeth, gweinyddwyr datganoledig ac aelodau'r NPM i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r NPM, ei rôl ac i gryfhau perthnasoedd rhwng y gwahanol randdeiliaid hyn. Disgwylir i'r digwyddiad yma ddigwydd yn 2018–19.

Ceisiodd Ysgrifenyddiaeth yr NPM gael arian ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wneud y gwaith sy'n ofynnol i sicrhau y gall gyflawni ei fandad OPCAT. Ni chafodd y cais yma ei gyflawni. Yn ogystal, tua diwedd y flwyddyn, adroddodd nifer o aelodau'r NPM y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gofyn eu bod yn gwneud toriadau i'w cyllideb ar gyfer 2018–19

Yn ogystal â'r gwaith i gryfhau ei annibyniaeth, mae'r NPM wedi parhau'r gwaith i gryfhau ei arferion arolygu a monitro. Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gweithiodd yr NPM a'i aelodau gyda'r Athro Rachel Murray a Dr Judy Laing o'r Ganolfan Weithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste ar ddau brosiect. Nod y prosiect cyntaf yw archwilio maint cydymffurfiad y cynlluniau ymweliadau lleyg o fewn yr NPM gydag OPCAT. Y gobaith yw y bydd canlyniadau'r prosiect yma'n cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn sy'n dod. Fel y nodwyd uchod, mae'r ail brosiect yn ymwneud â chanfod ac adrodd am ddigwyddiadau o gamdriniaeth mewn mannau cadw.

45 Mae'r llythyr ar gael ar https://s3-eu-west-2-amazonaws.com/npm-prod-storage-19n0nag2nk8xk/uploads/2018/02/Response-from-Scott-McPherson-to-JW-re-NPM-independence-1306170.pdf a gyrchwyd 19 Gorffennaf 2018.

46 Gwelwch Atodiad III yr adroddiad yma

47 Ibid.

## Datblygiadau sy'n ymwneud yn benodol ag aelodau

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, cafwyd nifer o ddatblygiadau sylweddol ac effeithiau positif mewn perthynas â gwaith yn ymwneud ag OPCAT a wneir gan aelodau'r NPM.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, bu'r **Arolygiaeth Gofal (CI)** yn arolygu pob un o'r pum uned gofal diogel ymroddedig i bobl ifanc. Bu'r Arolygiaeth Gofal hefyd yn parhau i weithio ar y cyd gyda HMIPS ar arolygiadau carchardai, gan arolygu pedwar carchar yn 2017–18. Arweiniodd yr Arolygiaeth Gofal ar ddatblygu methodoleg ar gyfer arolygiadau ar y cyd i adrodd ar brofiadau plant a phobl ifanc sydd angen diogelwch, a'r canlyniadau a gawsent. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel ac ymadawyr gofal hyd at 26 oed, gan gynnwys y rheiny sydd efallai wedi cael profiad o leoliadau cadw i oedolion. Bydd y model newydd yn cael ei gyflwyno yn 2018–19. Yn ogystal, parhaodd yr Arolygiaeth Gofal i ddatblygu methodoleg newydd ar gyfer arolygiadau gwasanaeth gofal yn cynnwys y safonau iechyd a gofal cymdeithasol newydd wedi'i seilio ar hawliau dynol, '*my support, my life*' (2017).[48] Yn ystod y flwyddyn, cafodd y fethodoleg hon ei threialu mewn 40 o arolygon mewn cartrefi gofal i bobl hŷn ac mae yn awr yn cael ei gwerthuso i hysbysu penderfyniadau'r dyfodol ar graffu cartrefi gofal i bobl hŷn, a'i defnydd ehangach gyda mathau eraill o wasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau gofal diogel. Creodd yr Arolygiaeth Gofal dudalen ymroddedig am ei gwefan allanol i broffilio gwaith yr NPM[49] a thudalen mewnrwyd ymroddedig yr NPM i godi ymwybyddiaeth y staff a rhannu arweiniad ac adroddiadau'r NPM.

Parhaodd **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** i arolygu'r Ganolfan Ddiogel yng Nghymru, gan wneud argymhellion am yr angen i wella canlyniadau mewn perthynas â sicrhau ansawdd, staffio a diogelu. Datblygodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth newydd oedd i gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2018 – Deddf Rheoliadau ac Arolwg Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – a fydd yn darparu fframwaith arolygiadau a chofrestriad newydd i wasanaethau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd y **Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)** ei adroddiad blynyddol i'r Senedd am y ffordd y mae'r gwasanaethau iechyd yn Lloegr yn gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.[50] Mae'r adroddiad yn nodi esiamplau unigol o arferion da, ond unwaith eto mae'n amlygu pryderon hirsefydlog, gan gynnwys gwelliant cyfyngedig mewn agweddau o gynllunio gofal sy'n bwysig i gefnogi adferiad cleifion a'u rhyddhad o wasanaethau cleifion mewnol, a'r ffaith nad oedd rhai cleifion wedi eu hysbysu am eu hawliau pan ddaethent i mewn, a/neu heb dderbyn gwiriadau iechyd corfforol wrth gyrraedd. Mae CQC hefyd yn gyfrannwr allweddol i'r rhaglen Gweddnewid Gofal. Mae hon yn amcanu i sicrhau fod pobl gydag anableddau dysgu ac ymddygiad heriol yn cael eu cefnogi'n effeithiol i fyw yn eu

48 Mae'r safonau ar gael ar https://www.gov.scot/publications/health-social-care-standards-support-life/ a gyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

49 Ar gael ar http://www.careinspectorate.com/index.php/national-preventive-mechanism cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

50 *Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2016/17*, ar gael ar http://www.cqc.org.uk/publications/major-report/monitoring-mental-health-act-report, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

cymunedau, yn agos i'w cartrefi, a dim ond yn cael eu rhoi mewn ysbyty iechyd meddwl pan mai dyma'r ymyrraeth fwyaf addas i'w hanghenion ar y pryd. Yn rhan o hyn, cyhoeddodd Registering the Right Support, sy'n amlinellu ei agwedd tuag at gofrestru darparwyr gwasanaethau i bobl gydag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.[51]

Ym mis Mehefin 2017, ysgrifennodd CQC at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi gwybod iddo am bryderon a welwyd yn ystod arolygiadau o ysbytai diogelwch uchel yn Lloegr, oedd wedi digwydd rhwng Tachwedd 2016 a Mawrth 2017. Trwy gydol y flwyddyn, bu CQC yn ymwneud yn agos ag ysbytai diogelwch uchel Broadmoor a Rampton, GIG Lloegr a Grŵp Trosolwg Cenedlaethol ar gyfer yr ysbytai i fonitro'r ymateb i'w bryderon. Arweiniodd hyn at rai gwelliannau, yn cynnwys cynyddu niferoedd staff a'r ysbytai'n cydweithio i rannu arferion da a hyfforddiant. Hefyd cododd CQC bryderon am ddarparu gwasanaethau adsefydliad darpariaeth mewn unedau sydd yn aml y tu allan i'r ardal ac sy'n gallu bod yn ormodol o gyfyngedig.[52] Argymhellir bod y llywodraeth a'i hasiantaethau'n gweithio gyda systemau iechyd a gofal lleol i ostwng y nifer o gleifion sy'n cael eu rhoi mewn unedau o'r fath.

Trwy gydol y flwyddyn, bu swyddfa **Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)** yn siarad gyda phlant yn y ddalfa am eu profiadau a'u llesiant yn rhan o raglen dreigl o ymweliadau â sefydliadau sy'n dal plant. Nod y gwaith yw gwella'r canlyniadau a'r cyfleoedd mewn bywyd i blant sydd mewn mannau cadw. Yn ystod y flwyddyn, cododd y Comisiynydd bryderon arbennig i'r Gweinidogion a'r gwneuthurwyr polisi am ddiogelwch, cyfnodau o ynysiad mewn celloedd, cyfyngu, cymorth iechyd meddwl, a mynediad i'r addysg a'r adsefydliad priodol. Parhaodd y Comisiynydd i gysylltu gyda Chomisiynwyr Plant yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar faterion cyffredin o bryder. Mae cydgytundeb o ddealltwriaeth o'r ddwy ochr gyda Chomisiynydd Plant Cymru i arsyllu a monitro llesiant plant sy'n cael eu cadw y tu allan i'r wlad sy'n gartref iddynt. Derbyniodd gwasanaeth cyngor a chynrychioli CCE 'Help at Hand' nifer o ymholiadau yn ystod y flwyddyn gan blant a phobl ifanc yn y ddalfa oedd yn pryderu nad oedd eu hawliau'n cael eu gweithredu. Mewn nifer o achosion, ysgrifennodd y Comisiynydd at y llywodraethwr yn ceisio ateb i'r broblem. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd wedi gwneud sylwadau i awdurdodau lleol cyfrifol ar ran plant yn yr ystâd carcharu. Mae llawer o achosion wedi ymwneud â chynllunio annigonol ar gyfer rhyddhau lle mae plant heb lety wedi'i sicrhau iddynt yn yr wythnosau a'r dyddiau sy'n arwain at eu rhyddhad. Roedd plant eraill yn teimlo nad oedd eu sylwadau a'u teimladau'n derbyn ystyried wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau, na'u bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol. Mae'r CCE wedi sicrhau canlyniadau positif yn llwyddiannus i nifer o blant y gwnaed sylwadau ar eu rhan.

Llwyddodd **Arolwg Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)** i sicrhau caniatâd i gyhoeddi adroddiadau o fis Mehefin 2017 (yn absenoldeb gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon). Gwnaeth CJINI dri arolwg yn ystod y flwyddyn: Carchar Maghaberry yn

51 *Cofrestru'r Cymorth Cywir*, ar gael ar https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20170612_registering_the_right_support_final.pdf, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

52 *Gwasanaethau adferiad i gleifion mewnol ym maes iechyd meddwl*, ar gael ar https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20180301_mh_rehabilitation_briefing.pdf, cyrchwyd 21 Tachwedd 2018.

Ebrill 2017 fel arolwg dirybudd i ddilyn argymhellion 2015: Carchar Magilligan ym mis Mehefin 2017; a'r Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid. Cyhoeddwyd adroddiadau am y ddau arolwg o garchardai yn 2017 a chyhoeddwyd adroddiad am y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Mehefin 2018. Yn ogystal, gwnaeth CJINI arolygiadau thematig o adsefydliad a chydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd eu canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n hwyrach yn 2018.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd, **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** gyda'i rhaglen reolaidd o ymweliadau ag ysbytai lle mae pobl wedi colli eu rhyddid, naill ai am eu bod yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Trefniadau Diogelu wrth Golli Rhyddid. Bu AGIC hefyd yn parhau i wneud arolygiadau ar y cyd o ddalfeydd yr heddlu ac yn parhau i fonitro effeithiolrwydd Concordat Gofal Iechyd Meddwl mewn Argyfwng Cymru sy'n rhoi fframwaith yn ei le i atal unigolion y drwgdybir bod ganddynt broblem iechyd meddwl rhag cael eu rhoi yn nalfa'r heddlu o dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cwblhaodd AGIC ei arweiniad yn derfynol ar gyfer Meddygon Penodedig i roi Ail Opiniwn a rhagwelir y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018.

Gwnaeth **Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)** wyth arolwg ar y cyd o ddalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac arolwg o'r trefniadau cadw ar gyfer Llu'r Ffiniau. Dangosodd yr arolygon bod y mwyafrif o'r carcharorion oedd yn cael eu dal yn nalfa'r heddlu'n cael eu trin yn barchus ac yn derbyn lefelau da o ofal. Parhaodd yr arolygiadau i ganfod mai gwan o hyd oedd y craffu ar y defnydd o rym ar garcharorion yn y mwyafrif o heddluoedd yr ymwelwyd â nhw, gan beri i lythyr gael ei anfon at yr holl Brif Gwnstabliaid yn gynnar yn 2018 i godi'r mater yma. Cychwynnodd y gwaith o ddiwygio'r disgwyliadau *Expectations for Police Custody* i gynnwys y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Troseddu a'r Heddlu 2017 a'r argymhellion a wnaed gan y Fonesig Elish Angiolini yn ei *Report of the Independent Review of Deaths and Serious Incidents in Police Custody*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017. Datblygwyd methodoleg arolygon wedi'i theilwra a chyfres o *Ddisgwyliadau* hefyd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i gefnogi arolygiad cyfleusterau cadw'r Ddeddf Terfysgaeth (TACT), a gynlluniwyd ar gyfer arolwg 2018–19.

Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd **Arolygiaeth Cwnstabliaeth EI Mawrhydi yn Yr Alban (HMICS)**, adroddiad ar ganolfannau cadw'r heddlu yn Rhanbarth Tayside. Roedd hyn yn dilyn arolygiadau mewn tair canolfan yn Tayside ym mis Medi 2017, ac ail arolwg o un o'r canolfannau hynny ym mis Tachwedd 2017 oherwydd pryderon sylweddol oedd gan HMICS am faterion glendid a hylendid. Mae HMICS yn parhau i weithio tuag at wneud arolygiadau ar y cyd o ddalfeydd yr heddlu gyda Gwella Gofal Iechyd yr Alban (HIS). I baratoi ar gyfer y cyd-arolygiadau yma, bu arolygwyr HIS yn cysgodi HMICS ar ei arolwg o un o'r canolfannau yn Tayside. Bu HMICS hefyd yn cymryd rhan yn yr arolwg o drefniadau dalfa Llu'r Ffiniau, dan arweiniad HMICFRS ac Arolygiaeth Carchardai EM, gan ymweld â'r ganolfan gadw ym Maes Awyr Glasgow.

Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMI Prisons)** gyda'i rhaglen reolaidd o arolygu carchardai, sefydliadau sy'n dal plant a phobl ifanc, dalfeydd mewnfudo, dalfeydd yr heddlu a'r llys, ystafelloedd dalfa tollau Llu'r Ffiniau a mannau cadw milwrol.

Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM ddau rifyn diwygiedig o'i Ddisgwyliadau yn ystod y flwyddyn yn dilyn ymgynghoriad estynedig. Cafodd *Expectations: Criteria for assessing the treatment of and conditions for men in prisons*, eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddwyd y pedwerydd rhifyn o'r *Expectations for immigration detention.* Cychwynnodd y gwaith ar ddrafftio Disgwyliadau ar gyfer arolygu dalfeydd TACT (ar y cyd gyda HMICFRS) ac ar adolygu *Expectations: Criteria for assessing the treatment of children and young people and conditions in prisons.*

Ym mis Ionawr 2018, yn dilyn arolwg o Garchar EM Nottingham a wnaed gydag Ofsted a CQC, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM y llythyr Hysbysiad Brys cyntaf yn unol â'r protocol newydd a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Tachwedd 2017. Mae'r protocol Hysbysiad Brys yn caniatáu i Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn saith diwrnod calendr i ddiwedd arolwg, gan ddarparu hysbysiad o bryderon sylweddol a'r rhesymau am y pryderon hynny. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymateb o fewn 28 diwrnod. Mae'r llythyr Hysbysiad Brys ac ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu cyhoeddi. Canfu'r arolygwyr bod Carchar EM Nottingham yn 'sylfaenol anniogel' ac yn y Llythyr Hysbysiad Brys mynegodd Arolygiaeth Carchardai EM bryder mai dyma oedd y trydydd arolwg yn olynol lle aseswyd bod diogelwch y carchar yn wael. Yn y ddwy flynedd ers yr arolwg diwethaf, roedd y lefelau hunan-niweidio wedi codi'n sylweddol, cafwyd wyth marwolaeth oedd, mae'n ymddangos, yn achosion o hunanladdiad, a methwyd dro ar ôl tro i gyflawni neu ymwreiddio argymhellion am welliant a gafwyd gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO). Roedd ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol yn nodi sut roedd yr awdurdodau'n bwriadu ymdrin â'r materion a godwyd gan Arolygiaeth Carchardai EM a'r cynllun gweithredu yr oeddent wedi ei roi yn ei le i ymdrin â'r pryderon mwyaf difrifol a brys.

Daeth Dirprwy Brif Arolygydd **Arolygiaeth Carchardai EM yr Alban (HMIPS)** yn aelod o lif gwaith gofal iechyd y carcharor (a sefydlwyd gan lywodraeth yr Alban). Yn ogystal, derbyniodd HMIPS yr achrediad Buddsoddwr mewn Gwirfoddolwyr am ei rôl fel Monitor Annibynnol Carchardai.

Gweithiodd y **Gymdeithas Ymweliadau Annibynnol â Sefydliadau Cadw (ICVA)** gyda'r Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL) i ddatblygu a lansio deunyddiau hyfforddi newydd a ffurflenni adrodd i'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol (ICVs) sy'n ymweld â'r rheiny sy'n cael eu dal o dan y Ddeddf Terfysgaeth. Lansiodd ICVA a'r IRTL y deunyddiau yma mewn cynhadledd TACT a gynhaliwyd yn Siambrau'r Red Lion. Sefydlodd ICVA grŵp rhwydwaith TACT o reolwyr cynllun sydd, ynghyd â'r IRTL, yn cwrdd yn chwarterol i rannu arferion da, canfod tueddiadau mewn ymweliadau â dalfeydd a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau adroddiadau o safon uchel. Yn ogystal, gweithiodd ICVA i ymwreiddio adroddiadau gan Arolygiaeth Carchardai EM a HMICFRS yn ei waith monitro, drwy dynnu sylw at bethau y dylai ymwelwyr â dalfeydd eu hystyried wrth wneud eu gwaith.

Yn ystod y flwyddyn, ymwelwyd â holl ganolfannau cadw Heddlu yr Alban gan **Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw (ICVs)** o Ymweliadau Annibynnol â Sefydliadau Cadw yr Alban (ICVS).

Derbyniodd cyfanswm o 2,701 o garcharorion ymweliad dalfa ond doedd yr un o'r rhain wedi gwneud honiad am gamdriniaeth Soniodd rhai ICVs am oedi gyda mynediad i orsafoedd heddlu a mannau cadw, a arweiniodd at roi'r gorau i'r ymweliadau. Cafwyd hyfforddiant ICVs yn barhaus drwy gydol y flwyddyn. Ym mis Ionawr 2018, derbyniodd ICVs frîff ar Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2018.

Tynnodd y brîff sylw at yr adrannau mwyaf perthnasol i ofal, lles a hawliau dynol a'r effeithiau ar ymweld â mannau cadw. Hefyd derbyniodd ICVs newydd, a rhai oedd yn bodoli'n barod, hyfforddiant ar gydraddoldeb a hawliau dynol a mannau cadw TACT. Aeth nifer uwch nag erioed o'r blaen o ICVs i'r gynhadledd ICVS flynyddol yn Glasgow ac roedd yr IRTL ymysg y siaradwyr.

Ym mis Tachwedd 2017 croesawodd y **Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)** Gadeirydd Cenedlaethol newydd, y Fonesig Anne Owers, fel y cam cyntaf i weithredu trefniadau llywodraethu newydd. Cynhaliwyd cyfres o fforymau mewnol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gadeiryddion bwrdd ar y strwythur llywodraethu newydd a derbyn eu hadborth ar faterion allweddol. Y nod yw cryfhau annibyniaeth, effeithiolrwydd ac effaith gwaith yr IMBs. Lansiwyd templed adroddiad blynyddol newydd i sicrhau bod Byrddau'n adrodd mewn ffordd glir a strwythuredig. Mae'r hyfforddiant i Gadeiryddion Bwrdd ac aelodau newydd wedi ei ddatblygu ymhellach a'i gyflwyno, gyda chefnogaeth llwyfan e-ddysgu.

Parhaodd **Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)** gyda'u rhaglen ymweliadau rheolaidd. Ymysg y materion a godwyd drwy gydol y flwyddyn roedd yr amser a gymerwyd i gwblhau adolygiadau o benderfyniadau i gyfyngu cymdeithas carcharorion unigol, a'r angen am fwy o oruchwyliaeth ar yr uned gofal a gwahaniad yng Ngharchar Maghaberry. Llwyddodd y Cyngor Gweithredol a'r Byrddau i gael adolygiad annibynnol o IMBNI i sicrhau fod y Byrddau, y Cyngor Gweithredol a'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau'n addas i'w pwrpas mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaol.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o weithgarwch nas gwelwyd ei fath o'r blaen i'r **Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)** ac eraill sy'n gweithio ym maes dalfeydd TACT, yn dilyn ymosodiadau terfysg ar Bont Westminster yn Llundain ar 22 Mawrth 2017. Parhaodd yr IRTL i weithio'n agos ag ICVA – mae ymwelwyr dalfeydd ICVA yn gwneud ymweliadau â charcharorion TACT a darperir eu hadroddiadau am yr ymweliadau i'r IRTL. Ychydig iawn o bryderon a godwyd gan garcharorion drwy gydol y flwyddyn mewn perthynas ag amodau eu carchariad. Aeth yr IRTL i gyfarfod Bwrdd ICVA ym mis Ebrill y llynedd, mynychodd a siaradodd yng Nghynhadledd Flynyddol ICVS yr Alban ym mis Mai 2017 a chynhaliodd gynhadledd ICVA ym mis Awst 2017 ar gyfer rheolwyr cynllun TACT i drafod problemau ac arferion da. Yn ogystal, parhaodd i gysylltu gydag aelodau'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol i glywed eu profiadau am ddalfeydd TACT.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol IRTL gerbron y senedd ym mis Ionawr 2018 a nododd amharodrwydd gan garcharorion i roi caniatâd i ymweliadau ICVA o fewn cyfleuster cadw dalfa TACT yng Ngogledd Iwerddon. Wedi hynny gweithiodd IRTL i hybu dealltwriaeth o annibyniaeth yr ymwelwyr dalfa, ac arweiniodd hynny at newid polisi lle mae gwirfoddolwyr

ICVA yn eu cyflwyno eu hunain i garcharorion. Amlygodd yr adroddiad hefyd yr angen am gysondeb ar draws y Deyrnas Unedig mewn perthynas â'r arfer o sicrhau ymateb ar lafar gan garcharor sy'n cysgu.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol 2016–17 **Arsyllwyr Lleyg** ym mis Hydref 2017 ac roedd hwn yn ymwneud ag ystod eang o argymhellion – yn fwyaf sylfaenol y diffyg agwedd unedig a chydlynol i sicrhau dyletswydd gofal i bobl dan hebryngiad ac yn nalfa'r llys. Dywedodd y Cadeirydd bod lles pobl yn y ddalfa mewn perygl am nad oes mynediad digonol i ofal iechyd, am fod yr amodau mewn ystafelloedd cadw'n annerbyniol, oherwydd trefniadau dalfa llys a hebryngiad anfoddhaol i blant a phobl ifanc ac oherwydd diffyg Cofnodion Hebryngiad Pobl (PERs) cywir. Roedd y cofnodion a anfonwyd gan yr heddlu a'r carchardai wrth drosglwyddo pobl yn y ddalfa i'r Gwasanaethau Hebrwng a Dalfa Carcharorion (PECS) yn aml yn anghywir. Parhaodd y gwaith i gryfhau'r Arsyllwyr Lleyg, gyda chyhoeddi canllawiau newydd am fonitro iechyd i'r holl arsyllwyr eu defnyddio a chytuno ar brotocol gyda PECS ynghylch mynediad arsyllwyr i ystafelloedd cadw.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd **Comisiwn Lles Meddwl yr Alban (MWCS)** gyda'i raglen o ymweliadau â gwasanaethau lle gall pobl gael eu cadw i bwrpasau derbyn gofal a thriniaeth neu efallai eu bod yn derbyn gofal a thriniaeth tra'u bod yn cael eu dal mewn sefydliadau eraill, gan gyhoeddi adroddiad ar argymhellion a chanlyniadau o'r ymweliadau hyn ym mis Medi 2017. Yn ogystal, cyhoeddodd MWCS nifer o adroddiadau thematig.

Ym mis Mehefin 2017 bu **Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Sefydliadau Cadw Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (y Bwrdd) (NIPBICVS)** yn cydnabod ymrwymiad ei wirfoddolwyr drwy ddathlu Wythnos Gwirfoddolwyr am y tro cyntaf. Ym mis Gorffennaf, cafodd y Bwrdd ei ailachredu gyda'r nod Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr, sef safon ansawdd y Deyrnas Unedig am arferion da mewn rheoli gwirfoddolwyr. Parhaodd hyfforddiant yr ICVs drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys sesiynau ar gydraddoldeb, ymwybyddiaeth o faterion trawsrywiol a dalfa TACT, yn ogystal â chynnal Cynhadledd Gwirfoddolwyr flynyddol y Bwrdd. Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o'r sesiwn hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o faterion trawsrywiol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI), sydd erbyn hyn wedi cyflwyno hyfforddiant mewn materion trawsrywiol i sarsiantiaid ystafelloedd dalfa newydd yng Ngogledd Iwerddon.

Gwnaeth swyddogion y Bwrdd waith drwy gydol y flwyddyn i gryfhau'r gwaith a wnaed gan ICVs. Adolygwyd y Llawlyfr ICV er mwyn gwella cywirdeb a pherthnasedd ac i sicrhau bod yr arfer yn cyfateb â'r polisi. Cyflwynwyd hunan-gyflwyniad ar gyfer ICVs oedd yn ymweld â charcharorion TACT. Yn olaf, diwygiwyd y ffurflenni y mae ICVs yn eu cwblhau ar ôl eu hymweliad cyntaf gyda charcharorion er mwyn gwella ansawdd a chywirdeb y data sy'n cael ei nodi ac i gefnogi darpariaeth gwybodaeth briodol i randdeiliaid eraill, yn cynnwys IRTL.

Parhaodd **Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)** i arwain arolygiadau ar y cyd o dair canolfan hyfforddi diogel Lloegr (STCs). Cychwynodd Ofsted, gyda'i arolygiaethau partner, wneud

adolygiad o'r fframwaith arolygiadau STC, gyda newidiadau y cytunwyd iddynt i gael eu gweithredu o fis Ebrill 2019. Parhaodd hefyd i arolygu cartrefi plant diogel (SCHs) yn Lloegr. Rhoddwyd fframwaith arolygu cyffredin gofal cymdeithasol newydd (SCCIF) ar waith ym mis Chwefror 2017, ac mae pob cartref plentyn, yn cynnwys SCHs erbyn hyn yn cael eu harolygu o dan y fframwaith yma. Cytunodd CQC i helpu Ofsted yn ei arolygiadau llawn o SCHs o fis Ebrill 2018. Trwy gydol y flwyddyn, ymunodd Ofsted ag Arolygiaeth Carchardai EM i werthuso gweithgareddau dysgu a sgiliau mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI) yn Lloegr.

Yn ystod y flwyddyn, cychwynnodd yr **Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoliadau (RQIA)** raglen fewnol o weddnewidiad a diwygiad i ystyried sut y gallai fod wedi ei strwythuro orau i ddarparu ei flaenoriaethau yn y dyfodol, ac i sicrhau ei fod yn parhau yn y sefyllfa orau i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n newid. Mewn partneriaeth â Phrifysgol Queen's Belfast, bu RQIA yn adolygu ac yn gwerthuso tystiolaeth am effeithiolrwydd fframwaith asesu arolwg, yn benodol ar gyfer defnyddio graddfeydd sgorio, i hwyluso gwelliannau yn ansawdd y canlyniadau gofal mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd canfyddiadau o'r prosiect yn cael eu defnyddio i hysbysu datblygiad fframwaith arolygiadau RQIA. I gefnogi'r gwaith yma, ac mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Ulster, cychwynnodd RQIA brosiect i ddatblygu fframwaith addasu i risgiau a gwaith dynamig ac ymatebol (RADaR) i bennu, mesur ac ymateb i risgiau rheoliadol yn fwy cadarn. Bydd hyn yn caniatáu i RQIA adnabod y gwasanaethau hynny lle mae ansawdd y gofal yn wael neu'n newid ac, felly y gallai fod angen arolygu ychwanegol. Datblygwyd fframwaith arolygu RADaR a fydd yn cael ei brofi a'i fireinio yn ystod 2018–19, cyn iddo gael ei ddatblygu ar gyfer ei ddefnyddio ar draws holl raglenni arolygu RQIA.

Yn ogystal â gwaith i gryfhau ei fframwaith a'i fethodoleg arolygu, parhaodd RQIA gyda'i raglen reolaidd o arolygiadau, gan wneud arolygiadau o bob ward lle mae pobl yn cael eu cadw ac archwilio mwy na 11,000 o ffurflenni cadw, asesu a dal cleifion. Ymunodd RQIA hefyd ag arolygiadau o Garchardai Maghaberry a Magilligan, gan archwilio'r ddarpariaeth gofal iechyd.

Parhaodd **Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)** i weithio ar y cyd gyda HMIPS i wneud arolygiadau o garchardai yn Yr Alban, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Darparodd SHRC gymorth i HMIPS i sicrhau bod ei safonau diwygiedig ar gyfer arolygu a monitro wedi eu seilio ar hawliau dynol. Yn ogystal, cynhaliodd SHRC ddigwyddiadau adeiladu gallu a gweithdai gydag aelodau o Senedd yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus i gynyddu arwyddocâd safonau rhyngwladol, gan gynnwys CAT ac OPCAT, yn eu gwaith. Cynhyrchodd SHRC ganllaw i helpu eiriolwyr i gefnogi pobl yn effeithiol i sicrhau eu hawliau, gan gynnwys y rheiny mewn mannau cadw.

# Adran pedwar

# Edrych ymlaen at 2018–19



Mae aelodau'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) yn cytuno ar gynllun busnes diwygiedig bob blwyddyn.

Cytunodd NPM ar yr amcanion a ganlyn ar gyfer ei waith yn 2018–19:

- cydweithio fel aelodau o'r NPM i gryfhau diogelwch y rheiny sydd mewn mannau cadw yn y Deyrnas Unedig;
- sicrhau fod pob aelod o'r NPM yn darparu ei gyfrifoldebau ei hun o dan y Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT);
- adeiladu NPM sy'n effeithiol am ddarparu holl ofynion OPCAT; a
- chynyddu gweledwdd a'r ymwybyddiaeth o rôl yr NPM mewn ataliad, OPCAT, gwahardd camdriniaeth mewn mannau cadw a'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (CAT).

Mae'r NPM yn gwneud nifer o brosiectau bob blwyddyn i gyflawni ei amcanion. Yn 2018–19, bydd NPM yn canolbwyntio ar dri phrosiect allweddol:

- cwmpasu ac ymchwilio ar gyfer trydydd prosiect thematig yr NPM ar gamdriniaeth mewn mannau cadw, gan gynnwys y ffordd mae aelodau'n adnabod ac yn ymateb i gamdriniaeth;
- darparu cyflwyniad a briffio ysgrifenedig i adolygiad cyfnodol y DU Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith; a
- parhau gwaith i gryfhau llywodraethiad yr NPM a chydymffurfiad OPCAT, gan gynnwys cytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth (neu Brotocol) gyda'r llywodraeth fel cam at ddeddfwriaeth a threfnu digwyddiad codi ymwybyddiaeth gyda'r llywodraeth.

# Adran pump
# Atodiadau



# Atodiad 1

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **APT** | Y Gymdeithas er Atal Artaith |
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **AGIC** | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| **CAT** | Y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill |
| **CCE** | Comisiynydd Plant Lloegr |
| **CI** | Arolygiaeth Gofal |
| **CJINI** | Arolwg Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon |
| **CPT** | Y Pwyllgor Ewropeaidd i Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill |
| **CQC** | Y Comisiwn Ansawdd Gofal |
| **CRC** | Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn |
| **DoLS** | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid |
| **HMICFRS** | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi |
| **HMICS** | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yr Alban |
| **HMI Prisons** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi |
| **HMIPS** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yr Alban |
| **HMP** | Carchar Ei Mawrhydi |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| **ICVA** | Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw |
| **ICVS** | Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw yr Alban |
| **IMB** | Bwrdd Monitro Annibynnol |
| **IMBNI** | Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) |
| **IRC** | Canolfan Symud Mewnfudwyr |
| **IRTL** | Adolygydd Annibynnol y Ddeddfwriaeth Derfysgaeth |
| **JCHR** | Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol |
| **LO** | Arsyllwyr Lleyg |
| **MHA** | Deddf Iechyd Meddwl 1983 |
| **MoJ** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **MWCS** | Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban |
| **NGO** | Corff Anllywodraethol |
| **NIPBICVS** | Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Sefydliadau Cadw Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon |
| **NPM** | Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol |
| **NPS** | Sylweddau seicoweithredol newydd |
| **OSCE** | Y Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop |
| **Ofsted** | Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau |
| **OPCAT** | Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill |

| | |
|---|---|
| **PACE** | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 |
| **PSNI** | Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon |
| **PPO** | Ombwdsmon Carchardai a Phrawf |
| **RQIA** | Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd |
| **SHRC** | Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban |
| **SPT** | Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall |
| **SCH** | Cartref diogel i blant |
| **STC** | Canolfan hyfforddiant diogel |
| **YJB** | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| **YOI** | Sefydliad troseddwyr ifanc |

# Atodiad II

## Rhagor o wybodaeth am NPM y Deyrnas Unedig

Os hoffech ragor o wybodaeth am NPM y Deyrnas Unedig, cysylltwch â'r Cydlynydd NPM neu'r Cydlynydd Cynorthwyol. I gael rhagor o wybodaeth am aelod penodol, efallai y byddwch eisiau cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

**Louise Finer**
Cydlynydd Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

**Jade Glenister**
Cydlynydd Cynorthwyol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
3ydd Llawr
10 South Colonade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Ffôn: 020 7340 0500
E-bost: louise.finer@hmiprisons.gov.uk / jade.glenister@hmiprisons.gov.uk
Gwefan: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/
Twitter: @uknpm

# Atodiad III
## Gohebiaeth NPM gyda'r SPT

Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU
d/o Arolygiaeth Carchardai EM
Clive House
5ed Llawr
70 Petty France
Llundain, SW1H 9EX
Ffôn: 020 3334 0358
E-bost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mari Amos
Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith
Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd dros Hawliau Dynol
Palais Wilson
52, rue des Paquis
CH-1201 Genefa

15 Tachwedd 2017

Annwyl Mari,

**Cyngor gan yr Is-bwyllgor ar Atal Artaith**

Rwy'n ysgrifennu ar ran Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig i ofyn am gyngor yr Is-bwyllgor ar fater pwysig cydymffurfiad â'r Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith.

Fel y gwyddoch, cafodd aelodau NPM y Deyrnas Unedig eu dynodi gan Lywodraeth y DU yn 2009, gyda dynodiadau ychwanegol yn 2013 a 2017.[53] Roedd yr holl sefydliadau a ddynodwyd i'r NPM yn gweithredu'n barod, a llawer ohonynt ers y cyfnod cyn i'r Cenhedloedd Unedig gytuno ar OPCAT, a phenderfynodd y llywodraeth eu bod yn gwneud y swyddogaethau oedd yn angenrheidiol i OPCAT yn barod. Pan wnaethpwyd y dynodiadau cychwynnol, gofynnwyd i Brif Arolygydd Carchardai (Cymru a Lloegr) gymryd rôl gydlynu ar gyfer yr NPM.[54]

53 Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith (OPCAT), Datganiad Ysgrifenedig – 490 c56WS, 31 Mawrth 2009, Confensiwn yn erbyn Artaith, Datganiad Ysgrifenedig – 571 c41WS, 3 Rhagfyr 2013, Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith (OPCAT) Datganiad ysgrifenedig – HLWS412 12 Ionawr 2017.

54 Mae rôl Arolygiaeth Carchardai EM wedi'i disgrifio yn y ddogfen *Protocol rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel yr Adran a Phrif Arolygydd Carchardai EM* (27 Chwefror 2017) ym mharagraff 3.3.

Ar hyn o bryd, dim ond dau o'r 21 aelod o'r NPM sydd ag unrhyw gyfeiriadau at eu mandad OPCAT wedi'u hysgrifennu i mewn i'r ddeddfwriaeth a'u creodd ac sy'n diffinio eu rôl. Mae Deddf Diwygio Heddlu a Thân (Yr Alban) 2012 a Gorchymyn Diwygiad Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2014 yn nodi bod pwrpas ymweld â dalfeydd yn annibynnol a swyddogaethau Prif Arolygydd Carchardai EM i'r Alban yn y drefn honno yn "unol ag amcan OPCAT".

Nid yw NPM ei hun yn cael ei adnabod yn fwy cyffredinol mewn unrhyw ddeddfwriaeth ac nid oes ganddo hunaniaeth gyfreithiol ar wahân. Yn 2015, penderfynodd aelodau'r NPM eu hunain greu rôl ar wahân i Gadeirydd yr NPM, yn annibynnol i aelodau eraill yr NPM ac, mae'n bleser gen i adrodd, cefais innau fy nethol a'm mhenodi heb unrhyw gyfranogaeth gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, nid yw'r Cadeirydd, fel yr NPM ei hun, yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth (nac yn cael unrhyw rai o'r pwerau, statws neu imiwnedd gofynnol). Byddwch yn nodi yn ein llythyr i'r llywodraeth (atodedig, 13 Ionawr) ein bod wedi rhoi gwybod yn fanwl pam ein bod yn credu bod hyn yn bwysig.

Eleni, cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth, y Bil Carchardai a Llysoedd, a fyddai wedi cryfhau sail ddeddfwriaethol Prif Arolygydd Carchardai EM a chyfeiriodd yn benodol at rôl OPCAT (cymal 2, addasiad arfaethedig i Ddeddf Carchardai 1952, mae darn wedi'i atodi) ond syrthiodd y ddeddfwriaeth pan alwodd y Llywodraeth etholiad ac mae'r Llywodraeth wedi datgan nad yw'n bwriadu dod â hwnnw gerbron y Senedd eto yn y dyfodol agos. Aethom ati i awgrymu i'r Llywodraeth a Phwyllgor y Bil y gallent ddefnyddio'r ddeddfwriaeth honno i gydnabod NPM y DU[55] ac aethom ati i ddrafftio diwygiad bychan i'r Bil hwnnw (atodedig) ond yn anffodus ni chymerodd y Llywodraeth yr awgrym hwnnw. Cafodd yr awgrym ei hybu, fodd bynnag gan y Gwrthbleidiau yn y Senedd.

Rydym hefyd wedi codi'r angen am ddeddfwriaeth NPM gyda'r Cyd-bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol a'r Pwyllgor Cyfiawnder,[56] a gefnogodd y cynnig yma.[57]

Ar drywydd gwahanol, efallai eich bod yn cofio am y gŵyn i'r Is-bwyllgor fod un o'n haelodau (y Byrddau Monitro Annibynnol, IMB) yn atebol i ymyrraeth anghyfiawn gan Lywodraeth y DU (drwy "ddiswyddo" y cadeirydd lleol) a'n bod wedi ysgrifennu atoch am hyn? Ar yr un pryd cafwyd adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer yr IMB ac aethom ati i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol i godi'r angen am fwy o wahaniad (llythyr 24 Ionawr 2017 atodedig) a chyfarfod drafod y materion. Er na chawsom ateb ysgrifenedig sylweddol ganddo i'n pryderon penodol yn ein cyfarfod dywedodd y Gweinidog nad oedd

55 Pwyllgor Bil Cyhoeddus, *Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan John Wadham, Cadeirydd Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU* (PCB 08) yn https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmpublic/PrisonsCourts/memo/PCB08.htm

56 Tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor Cyfiawnder, http://data.parliamen.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/ec=videncedocument/justice-committee/prison-reform/oral/46581.html; Tystiolaeth ysgrifenedig gan NPM y Deyrnas Unedig i'r Pwyllgor Cyfiawnder, http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/justice-committee/ prison-reform/written/45906.html, Ionawr 2017, Tystiolaeth ysgrifenedig gan NPM y DU i'r JCHR http://data.parliament. uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/human-rights-committee/mental-health-and-deaths-in- prison/written/48220.html, Mawrth 2017.

57 14eg Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder – *Diwygio'r Carchardai, Rhan 1 y Bil Carchardai a Llysoedd,* HC 1150, *28 Ebrill 2017;* Cwestiynau Topigol, 25 Ebrill 2017, Hansard Cyfrol 624.


yn derbyn ein beirniadaeth o'r trefniadau a gweithredwyd y newidiadau a awgrymwyd yn yr adolygiad heb roi ystyriaeth i'n pryderon ni (gwelwch y llythyr atodedig 13 Chwefror 2017).

Mae natur y trefniadau cyfansoddiadol datganoledig yn y Deyrnas Unedig yn golygu bod llawer o'n haelodau'n cael eu creu gan, ac yn atebol i, ddeddfwriaeth ar wahân, ac mae diwygio'r ddeddfwriaeth honno y tu allan i allu Senedd San Steffan. Fodd bynnag, cyn belled ag y gwyddom, ni chafwyd unrhyw drafodaeth gyda'r seneddau na'r llywodraethau datganoledig am y newidiadau yr ydym wedi'u hawgrymu.

Mae werth nodi ein bod yn parhau i drafod gyda swyddogion y Llywodraeth beth arall allai gael ei gyflawni i gydnabod yr NPM yn absenoldeb unrhyw ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, credwn fod y ffaith nad oes deddfwriaeth sy'n nodi mandad OPCAT a chyfrifoldebau pob un o'r sefydliadau dynodedig, yn benodol i amddiffyn eu hannibyniaeth, yn anghywir mewn egwyddor ac nid yw'n cydymffurfio gydag OPCAT ei hun na chanllawiau SPT ei hun. Ein barn ni yw hyn: yn ychwanegol at gydnabod rôl NPM benodol ei aelodau yn eu deddfwriaeth wreiddiol eu hunain, mae angen i'r NPM fel endid cydlynu dan arweiniad Cadeirydd annibynnol gael ei gydnabod ar wahân mewn statud. Mae hyn yn bwysig i'n rôl yn genedlaethol ac i'n henw da yn rhyngwladol.

Fel y gallwch weld o'r ohebiaeth atodedig (ein llythyr dyddiedig 13 Ionawr 2017 a'r ateb ar 13 Mehefin 2017), mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y trefniadau ar gyfer NPM y DU yn cydymffurfio'n barod gydag OPCAT. Rydym yn deall bod yr SPT wedi codi'r angen am sail ddeddfwriaethol i NPM y DU cyn ei ddynodiad, a byddem yn croesawu eich cyngor penodol ar yr hyn y byddai ei angen, os unrhyw beth o gwbl, i NPM y DU gydymffurfio gydag OPCAT. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol ein bod yn dod atoch am gyngor ac rydym wedi darparu copi i weinidogion a swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn ogystal â chynrychiolwyr y llywodraethau datganoledig.

Yn gywir iawn



**John Wadham**
Cadeirydd NPM y DU

cc   Dr Phillip Lee AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder Ieuenctid, Dioddefwyr, Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd Troseddwyr.

Yr Arglwydd Ahmad o Wimbledon, y Gweinidog Gwladol ar gyfer y Gymanwlad a'r Cenhedloedd Unedig, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

Dominic Lake, Dirprwy Gyfarwyddwr y Cysylltiadau Rhynglywodraethol a Hawliau Dynol, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Matthew Deith, Arweinydd Tîm, Diogelwch a Chyfiawnder, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

Yr Athro Syr Malcolm Evans, Cadeirydd, SPT y Cenhedloedd Unedig

Neil Rennick, Cyfarwyddwr Cyfiawnder, Llywodraeth yr Alban

Brian Grzymek, Adran Deddfwriaeth a Pholisi Cyfiawnder Troseddol, Yr Adran Cyfiawnder, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Andrew Felton, Pennaeth Polisi Cyfiawnder, Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Cabinet, Llywodraeth Cymru

David Jones, Rheolwr Confensiynau, Addysg a Gwasanaeth y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru

Atodedig: Llythyr gan John Wadham i Scott McPherson, 13 Ionawr 2017
Ymateb i John Wadham gan Scott McPherson, 13 Mehefin 2017
Llythyr gan John Wadham i Sam Gyimah AS, 2 Ionawr 2017
Ymateb i John Wadham gan Sam Gyimah AS, 13 Chwefror 2017
Darn o'r Bil Carchardai a Llysoedd (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Senedd) a'r diwygiadau arfaethedig ynghylch OPCAT
Diwygiadau arfaethedig NPM i'r Bil Carchardai a Llysoedd i gydnabod NPM

NATIONS UNIES
**DROITS DE L'HOMME**
HAUT-COMMISSARIAT

UNITED NATIONS
**HUMAN RIGHTS**
OFFICE OF THE HIGH COMMISSIONER

HAUT-COMMISSARITAT AUX DROITS DE L'HOMME • OFFICE OF THE HIGH COMMISSIONER FOR HUMAN RIGHTS
PALAIS DES NATIONS • 1211 GENEVA 10, SWIFTERLAND
www.ohchr.org • FFÔN: +41 22 917 9000 • FFACS: +41 22 917 9008 • E-BOST: registry@!ohchr.org

CYFEIRNOD: MA

Genefa, 29 Ionawr 2018

Annwyl Mr. Wadham,

Mae gen i'r anrhydedd o ysgrifennu atoch ar ran Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (SPT), a sefydlwyd yn unol â'r Protocol Opsiynol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill (OPCAT), yn fy ngwaith fel Pennaeth Tîm Rhanbarthol Ewropeaidd a chofnodwr gwlad SPT ar gyfer Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2017 lle'r oeddech wedi nodi nifer o ddatblygiadau'n ymwneud â chwestiwn sail gyfreithiol NPM y Deyrnas Unedig. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae'r diffyg sail ddeddfwriaethol glir ar gyfer yr NPM wedi bod yn fater o bryder i'r SPT ers amser. Rydym yn gwybod bod rhai pobl o'r farn nad yw hyn yn angenrheidiol yn gyfreithiol o dan yr OPCAT. Mae'r SPT yn anghytuno gyda'r sefyllfa yma ac os bydd yr SPT yn ymweld â'r Deyrnas Unedig ar sail swyddogol, mae'n anochel y byddai'r methiant yma'n ymddangos yn ei adroddiad a'i argymhellion – fel y mae ymhob gwlad arall lle mae gwendidau tebyg.

Profiad yr SPT yw bod sefyllfa NPM yn parhau'n ansicr os nad yw wedi'i danategu gan sail ddeddfwriaethol glir. Yn anffodus, rydym wedi gweld gormod o esiamplau o achosion lle mae gwladwriaethau wedi rhoi pwysau ar NPMs, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nad ydynt wedi gallu eu herio am nad oes ganddynt sail glir ar gyfer gwneud hynny. Mae effeithiolrwydd ymarferol yn ddibynnol ar annibyniaeth swyddogaethol ac mae'r annibyniaeth wedi'i fygwth pan fo'r NPM yn agored i bwysau gwleidyddol neu orfodaeth wleidyddol. Mae rôl yr SPT mewn perthynas â NPMs yn cynnwys sicrhau eu bod wedi'u diogelu rhag pwysau o'r fath. Felly, ein barn sicr yw bod yr OPCAT yn gofyn, fel mater o arfer, bod gan yr NPM danategiad deddfwriaethol clir.

Er bod hwn yn ddatblygiad sy'n ennyn croeso, rhaid dweud bod y geiriad a gynigiwyd yn flaenorol i'w gynnwys yn y Bil Carchardai a Llysoedd yn llawer is na'r safon y byddem yn ei ddisgwyl, am nad yw lawer mwy na chydnabyddiaeth ddeddfwriaethol o'r NPM. Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i ni, mae'n ymddangos nad yw'n cynnig unrhyw ddiogelwch sylweddol ar gyfer gweithredu'r mandad OPCAT o ddydd i ddydd gan NPM y Deyrnas Unedig.


…//…

**Mr. John Wadham**
**Cadeirydd NPM y Deyrnas Unedig**


Mae'r SPT yn ymwybodol nad yw eto wedi bod ar ymweliad ffurfiol â'r Deyrnas Unedig o dan ei fandad Erthygl 11(a) OPCAT. Efallai bod hyn yn golygu nad yw wedi cael y cyfle i roi gwybod beth yw ei farn yn ffurfiol ac yn anffurfiol i Lywodraeth y DU. Ond, nid ydym o dan unrhyw amheuaeth bod Llywodraeth y DU yn gwybod beth yw barn yr SPT ar y mater yma. Byddem yn croesawu unrhyw gyfle a allai gael ei ddarparu i egluro ein sefyllfa'n uniongyrchol i'r Llywodraeth, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a chredwn y byddai'n fuddiol pe bai hyn yn digwydd ar y cyfle cynharaf.

Yn gywir iawn

Mari Amos



Pennaeth y Tîm Rhanbarthol Ewropeaidd
Yr Is-bwyllgor ar Atal Artaith



Mae'r darlun a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn fanylyn gan *Reef*, paentiad gan garcharor yng Ngharchar Ei Mawrhydi Barlinnie (hawlfraint © 2019 The Koestler Trust, cedwir bob hawl). Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen celfyddydau carchar, yn ysbrydoli troseddwyr, cleifion dan glo a charcharorion i gymryd rhan yn y celfyddydau, gwaith i gyflawni a gweddnewid eu bywydau.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.koestlertrust.org.uk

Cynhyrchwyd gan Design102,
Y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Gwybodaeth, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

CCS0119399642

978-1-5286-0977-7